**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref : LF/MD/0148/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Mawrth 2015

Annwyl David,

**Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Yn dilyn cyflwyno Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Chwefror 2015, rwy'n falch o amgáu Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a phwerau deddfwriaethol dirprwyedig eraill sydd yn y Bil.

Mae'r datganiad yn cynnig gwybodaeth bellach ar fwriad y polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, y rheolau, y codau ymarfer a'r canllawiau y gellid eu gwneud o dan y Bil, os caiff ei ddeddfu.

Rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Mae copi o'r llythyr hwn a'r datganiad amgaeedig yn cael ei anfon hefyd at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir
Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

Bwriad polisi'r rheoliadau
sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Mawrth 2015

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU ARFAETHEDIG O DAN FIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi amcan o gyfeiriad polisi presennol rheoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud drwy ddefnyddio'r pwerau o dan Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Bydd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn diwygio ac yn symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Bydd yn gwneud y canlynol:

- diwygio'r gyfundrefn reoleiddiol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
- pennu gofynion ar gyfer awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymgymryd ag asesiadau o sefydlogrwydd y sector yn y dyfodol;
- diwygio'r gyfundrefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
- ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac ehangu ei gylch gwaith;
- diffinio'r ffordd y caiff y gweithlu gofal cymdeithasol ei reoleiddio.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12110

Memorandwm Esboniadol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12110

Yr ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion

http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/support/?skip=1&lang=cy

**Rheoleiddio Gwasanaethau ac Awdurdodau Lleol**

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig" |
| RHAN O'R BIL: | 1 Pennod 1 |
| ADRAN: | 2(1)(h) a 2(3) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 2(1)(h) Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi unrhyw wasanaeth arall sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth yn wasanaeth y mae angen iddo gofrestru â Gweinidogion Cymru.<br>2(3) Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi pa bethau NAD ydynt i'w trin fel gwasanaethau rheoleiddiedig | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n diffinio sefydliadau ac asiantaethau yw Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'r Bil yn cyflwyno'r cysyniad o wasanaethau rheoleiddiedig ac mae pob un o'r gwasanaeth rheoleiddiedig a restrir yn Atodlen 1 yn cyfateb i'r sefydliadau a'r asiantaethau gofal cymdeithasol presennol sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd (Adran 2 ac Atodlen 1).<br><br>Bwriad y polisi yw bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i newidiadau yn y sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r sector gofal cymdeithasol yn newid a disgwylir i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau gael eu datblygu, yn enwedig o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Felly, nid yw'n ddichonadwy i'r Bil gynnwys rhestr hollgynhwysfawr o wasanaethau rheoleiddiedig a fydd yn parhau'n gyfredol.<br><br>Mae'r rheoliadau yn is-adran 1(h) yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth yn wasanaeth y mae'n rhaid iddo gael ei gofrestru â Gweinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau yn is-adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwasanaethau nad ydynt yn bwriadu iddynt gael eu rheoleiddio, er eu bod yn dod o fewn y diffiniad o wasanaeth y mae'n ofynnol iddo gael ei reoleiddio.<br><br>Gellir defnyddio'r pŵer hwn yn y dyfodol er mwyn dod â gwasanaethau eraill o dan y gyfundrefn reoleiddiol. Er enghraifft, mae rheoliadau sy'n cael eu cyflwyno o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i wasanaethau eiriolaeth fod ar gael i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r anghenion hyn yn cael ei diwallu gan awdurdod lleol ai peidio). Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru mai gwasanaeth rheoleiddiedig fydd hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen i'r maes gwasanaeth gael amser i ymsefydlu ac mae angen cael gwell dealltwriaeth ohono er mwyn canfod yn union pa agweddau ar eiriolaeth y mae angen eu rheoleiddio. Felly mae'n | |

fwriad gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio’r pŵer hwn i wneud rheoliad er mwyn rhagnodi eiriolaeth yn wasanaeth rheoleiddiedig ar ôl ymgynghoriad manwl â’r sector. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu sefydlu prosesau i adolygu’n rheolaidd opsiynau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau ymhellach, a arweinir gan y rheoleiddiwr gwasanaethau. Bydd y prosesau hyn yn ystyried, yn y lle cyntaf, y model o ofal ychwanegol sy’n datblygu yng Nghymru.

Yn yr un modd, efallai y bydd gwasanaeth newydd yn datblygu a fydd yn dod o dan y diffiniad o wasanaeth y mae angen ei gofrestru ond lle mae rhesymau da dros beidio â’i gofrestru. Er enghraifft, efallai fod y gwasanaeth yn ddarostyngedig i gyfundrefn reoleiddiol arall megis tai neu iechyd. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd gan Lywodraeth Cymru y pŵer i benderfynu na ddylid trin y gwasanaeth fel gwasanaeth rheoleiddiedig at ddiben rheoleiddio o dan y Bil hwn. Nid oes angen gwneud rheoliadau o’r fath ar hyn o bryd.

Heb y pwerau hyn ni allai Gweinidogion Cymru ymateb i newidiadau yn y sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol ac o ganlyniad ni fyddai gwasanaethau pwysig yn cael eu rheoleiddio. Yn yr un modd, gallai gwasanaethau fod yn ddarostyngedig i’r gyfundrefn reoleiddiol er na fyddai hynny’n angenrheidiol nac yn briodol. Nodir y gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan y naill is-adran neu’r llall yn is-adran (4). Wrth ddatblygu’r rheoliadau bydd ymgysylltu llawn â’r rheoleiddiwr, y sector a dinasyddion.

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Termau allweddol eraill |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | 1 Pennod 1 |
| ADRAN: | 3(3) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi pethau na fyddant yn cael eu trin fel gofal a chymorth er gwaethaf y diffiniadau yn adran 3(1)(a) a (d). | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Y ddeddfwriaeth gyffredinol gyfredol sy'n ymwneud â rheoleiddio gofal cymdeithasol yw Deddf Safonau Gofal 2000. Nid yw'n cynnwys diffiniad o bethau sydd i'w trin fel "care" a "support". Diffinnir y termau hynny yn eang iawn yn adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Bil yn cynnwys diffiniadau o ofal a chymorth at ddibenion y Bil. Mae'r diffiniadau hyn yn angenrheidiol oherwydd o dan bŵer gwahanol yn y Bil yn adran 2(1)(h), caiff y gwasanaethau y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru yn y dyfodol gael eu hehangu fel y bydd rhwymedigaeth ar bobl nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd i wneud hynny. Diben y diffiniad yw pennu pa wasanaethau a all gael eu rheoleiddio yn y dyfodol.<br><br>Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn briodol i newidiadau yn y farchnad gofal cymdeithasol.<br><br>Gellir defnyddio'r rheoliadau yn is-adran (3) i ganiatáu i Weinidogion Cymru ragnodi pa wasanaethau na ddylent gael eu trin yn rhai gofal a chymorth ac a fydd felly y tu hwnt i'r gyfundrefn reoleiddiol.<br><br>Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, yng nghyd-destun gwasanaethau rheoleiddiedig, efallai y bydd gwasanaeth newydd yn cael ei ddatblygu sy'n dod o dan y diffiniad cyffredinol o wasanaeth gofal a chymorth ond lle mae rhesymau da dros beidio â'i drin felly. Er enghraifft, efallai fod y gwasanaeth yn ddarostyngedig i gyfundrefn reoleiddiol arall megis tai neu iechyd. O dan yr amgylchiadau hyn byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i benderfynu na ddylai'r gwasanaeth gael ei drin fel gwasanaeth rheoleiddiedig.<br><br>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau o ran pa gyfundrefn reoleiddiol y maent yn ddarostyngedig iddi. Bydd hefyd yn sicrhau na ddaw gwasanaethau o dan y gyfundrefn reoleiddiol pan na fo hynny'n briodol.<br><br>Ceir cynsail yn Neddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus 2010 sy'n cynnwys y pŵer i addasu, a thrwy hynny ychwanegu gwasanaethau at y diffiniad o wasanaethau | |

gofal a chymorth neu eu dileu yn y diffiniad.

Nid oes angen gwneud rheoliadau o'r fath ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 2 |
| ADRAN: | 6(1)(d)<br>6(2) |

DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD

6(1)(d) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi gwybodaeth arall sydd ei hangen mewn cais i gofrestru i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth.
6(2) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ffurf cais a wneir o dan adran 6.

BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Y ddeddfwriaeth gyffredinol gyfredol yw Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i geisiadau i gofrestru gynnwys gwybodaeth ragnodedig ar faterion rhagnodedig; ac unrhyw wybodaeth arall y gall awdurdod cofrestru yn rhesymol ofyn amdani.
Mae Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002, a wnaed o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn nodi'r wybodaeth ragnodedig yn fanwl. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gais gael ei wneud yn ysgrifenedig ar ffurf a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Bil yn nodi ffordd newydd o gofrestru ar sail gwasanaeth a nodir y wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cais i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth ar wyneb y Bil yn adran 6(1)(a) i (c). Mae'n cynnwys manylion y gwasanaeth rheoleiddiedig sydd i'w ddarparu; y mannau y darperir y gwasanaeth ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy; ac, enw a chyfeiriad yr unigolyn/unigolion cyfrifol dynodedig.

Bydd y rheoliadau a wneir o dan is-adran (1)(d) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn cais i gofrestru'n ddarparwr gwasanaeth. Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau a bennir yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod y wybodaeth fwyaf perthnasol, defnyddiol a phriodol yn cael ei chasglu fel rhan o'r broses gwneud cais. Mae lefel y wybodaeth ofynnol yn debygol o newid dros amser, yn enwedig wrth i system newydd o gofrestru gael ei sefydlu. Bydd hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gymesur i unrhyw argymhellion ynglŷn ag arfer gorau sy'n dod i'r golwg yn y dyfodol.

Mae'r pŵer i ragnodi ffurf cais yn un technegol ac ni fyddai'r manylder hwn yn briodol ar wyneb y Bil. Bydd y pŵer hwn yn sicrhau bod ffurf y cais yn gyson â'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu a bod cysondeb rhwng ceisiadau.

Mae Dr Flynn yn ystyried y maes hwn yng nghyd-destun ei hadolygiad o Ymgyrch Jasmine. Gellid defnyddio’r rheoliadau hyn i wneud newidiadau i’r wybodaeth sy’n ofynnol mewn cais yng ngoleuni argymhellion yr adolygiad hwnnw.

Mae Rheoliadau Comisiwn Ansawdd Gofal (Cofrestru) 2009 a Gorchymyn Gwella Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol yr Alban (Ceisiadau) 2011 yn nodi gofynion ynglŷn â gwybodaeth er mwyn cofrestru’n ddarparwr gweithgarwch rheoleiddiedig newydd yn Lloegr ac yn yr Alban yn y drefn honno. Maent yn rhoi arwydd o’r hyn y gellid ei gynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn.

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Datganiad blynyddol |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 2 |
| ADRAN: | 8(2); 8(3) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 8(2) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r wybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol i'w baratoi gan ddarparwyr, a'i ffurf.<br>8(3) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r terfyn amser y mae'n rhaid i ddarparwyr gyflwyno datganiad blynyddol yn unol ag ef. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn nodi y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad blynyddol gael ei gyflwyno i'r awdurdod cofrestru. Mae'n nodi hefyd y gall rheoliadau ddarparu ar gyfer cynnwys ac amseriad yr adroddiad blynyddol. Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â lleoliadau (er enghraifft Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gynnal adolygiad o ansawdd gofal o leiaf unwaith y flwyddyn a sicrhau bod yr adroddiad ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau, yr awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod darparwyr gofal a chymorth annibynnol yn cyflwyno Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac Adroddiad Ansawdd i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gyfer pob un o'u sefydliadau neu eu hasiantaethau. Defnyddir y rhain i lywio arolygiadau ond nid yw'n ofynnol eu cyhoeddi.<br><br>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi'i gofrestru ar ei chyfer. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r datganiad.<br><br>Bwriad y polisi yw cynnig mwy o dryloywder a sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth berthnasol er mwyn penderfynu ar y gwasanaethau gorau i ddiwallu eu hanghenion a'u galluogi i gymharu darparwyr gwasanaethau â'i gilydd. Mae hyn yn gyson ag egwyddor llais a rheolaeth.<br><br>Bydd y rheoliadau a wneir o dan is-adran (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi cynnwys a ffurf y datganiad blynyddol. Bydd y rheoliadau a wneir o dan is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r terfyn amser y mae'n rhaid cyflwyno'r datganiad blynyddol yn unol ag ef.<br><br>Caiff y rheoliadau eu defnyddio i sicrhau y bydd y wybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol yn gymesur, yn seiliedig ar ffeithiau, yn gyfredol ac yn gyson ym mhob gwasanaeth a hefyd bod y datganiad yn cael ei baratoi o fewn terfyn amser penodol. Bydd hyn yn galluogi pobl i gymharu darparwyr yn uniongyrchol. Bydd y rheoliadau yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu yn y datganiad blynyddol. | |

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y canlynol:

- Trosolwg a gwerthusiad o’r ffordd y mae’r darparwr yn credu bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd sy’n gyson â lles defnyddwyr gwasanaethau.
- Gwybodaeth am gyfradd trosiant staff yn y flwyddyn flaenorol.
- Manylion am y rhaglen hyfforddiant sydd gan y cyflogwr ar waith i’w gyflogeion ynghyd â chadarnhad ynglŷn â faint o gyflogeion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddiant honno yn y flwyddyn flaenorol.
- Nifer y cwynion a gyflwynwyd i’r darparwr yn ystod y cyfnod adrodd blynyddol a manylion y camau i’w cymryd gan y darparwr i’w datrys.

Nod y rheoliadau yw sicrhau ei bod yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth, ni waeth beth fo’u maint neu eu strwythur corfforaethol gwblhau’r datganiad blynyddol mewn ffordd gyson er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaethau presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau i gymharu gwasanaethau tebyg am debyg.

Mae’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cael cyngor gan Dr Flynn sydd wedi nodi ei dymuniad i gyfrannu at syniadau ar gyfer datblygu rheoliadau yn y maes hwn. Wrth ddatblygu’r rheoliadau hyn bydd ymgysylltu llawn â’r rheoleiddwyr, y sector a dinasyddion.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 2 |
| ADRAN: | 9(3)(a)(ii)<br>9(3)(b) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 9(3)(a)(ii) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r manylion y mae'n ofynnol i ddarparwr eu darparu mewn cais i amrywio cofrestriad.<br>9(3)(b) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ffurf cais i amrywio cofrestriad. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2000 yn nodi'r broses o gofrestru fel gwasanaeth rheoleiddiedig ac amrywio neu ddileu un o amodau cofrestriad.<br><br>Mae'r Bil yn nodi cyfres ddiwygiedig o brosesau o ran cofrestru darparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn seiliedig ar fodel gwasanaeth newydd yn hytrach na'r model presennol o sefydliadau ac asiantaethau. Mae hefyd yn nodi'r prosesau cysylltiedig ar gyfer amrywio neu ganslo'r cofrestriad a fydd yn gymwys i'r model newydd. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gais i amrywio cofrestriad gynnwys manylion yr amrywiad a geisir gan y darparwr a'r cyfryw wybodaeth arall ag a ragnodir.<br><br>Bwriad y polisi yw cynnig mwy o hyblygrwydd a fersiwn symlach o'r system reoleiddio bresennol sy'n llwyddiannus ar y cyfan. Y bwriad yw rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau; osgoi dyblygu diangen o ran y wybodaeth a'r ddogfennaeth i'w darparu gan y rheoleiddiwr; a rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rheoleiddiwr o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei weithdrefnau gorfodi.<br><br>Bydd rheoliadau a wneir o dan y pwerau yn adrannau 9(3)(a)(ii) a 9(3)(b) yn ategu'r rhai yn adran 6 sy'n ymdrin â chofrestru darparwyr gwasanaethau. Byddant yn nodi'r broses o amrywio cofrestriad darparwr pe bai'n dymuno darparu gwasanaeth newydd nad yw wedi'i gofrestru eisoes i'w darparu; neu ddarparu'r gwasanaeth mewn man nad yw'n fan penodedig eisoes; neu roi terfyn ar ddarparu gwasanaeth o'r fath. Mae'r pŵer i ragnodi ffurf cais i newid cofrestriad yn fater technegol ac yn sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn addas at y diben ac yn cynnwys y manylder angenrheidiol i'r rheoleiddiwr wneud penderfyniad.<br><br>Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol o ystyried yr hyblygrwydd ychwanegol a gynigir gan y system newydd a'r angen am osgoi dyblygu gofynion i ddarparwyr gwasanaethau a fodlonodd y gofynion ar gyfer cofrestriad cychwynnol. Bydd y pŵer i | |

| | |
|---|---|
| wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru allu ymateb yn briodol i ganfyddiadau adolygiadau ac argymhellion ynglŷn ag arfer gorau o ran hyn. | |
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Unigolion cyfrifol |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 2 |
| ADRAN: | 9(2), 19(4), 19(6) a 27(1) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 9(2) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi terfyn amser y gellir gwneud cais i amrywio cofrestriad darparwr yn unol ag ef o dan amgylchiadau lle nad oes unigolyn cyfrifol mewn man lle mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ohono neu fan y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn perthynas ag ef.<br>19(4) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion i'w bodloni ynglŷn ag addasrwydd unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol.<br>19(6) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r amgylchiadau lle y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi unigolyn cyfrifol er nad yw'r unigolyn yn bodloni gofynion is-adran 4 a gwneud darpariaethau bod y Rhan honno yn gymwys at unigolyn o'r fath os bydd addasiadau rhagnodedig.<br>27(1) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion a osodir ar unigolyn cyfrifol. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae'r cysyniad o ddarparwr yn enwebu unigolyn cyfrifol yn bodoli eisoes yn y rheoliadau sy'n ymwneud â sectorau penodol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (gweler er enghraifft rheoliad 6 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002). Fodd bynnag, mae'r gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i ddynodi unigolyn cyfrifol y bydd ei addasrwydd yn cael ei wirio nid yn unig ar adeg y cofrestriad cychwynnol, ond wedi hynny yn un newydd ac nid yw'n un o amodau cofrestriad darparwr gwasanaeth ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Bil yn sefydlu'r cysyniad o 'unigolyn cyfrifol' dynodedig mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae adran 19 o'r Bil yn nodi'r gofynion cyffredinol ynghylch cymhwysedd unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol. Nid yw'r Bil yn rhagnodi dyletswyddau'r unigolyn cyfrifol ond mae'n nodi y cânt eu nodi mewn rheoliadau. Mae hyn yn caniatáu i reoliadau ynglŷn â sectorau penodol gael eu datblygu.<br><br>Bwriad y polisi yw sicrhau mai unigolyn cyfrifol a enwebwyd sydd ar lefel uwch briodol mewn sefydliad a fydd yn atebol am ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth. Bydd yn galluogi'r rheoleiddiwr i gymryd camau yn erbyn yr unigolyn cyfrifol. Bydd hyn yn ymateb i Adroddiad Ymchwiliad Francis a bydd yn sicrhau y caiff cadwyn glir o atebolrwydd ei sefydlu sy'n cynnwys cyfrifoldeb corfforaethol y bwrdd, yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr gwasanaeth. | |

Mewn perthynas â'r pŵer yn adran 9(2) cydnabyddir y bydd amgylchiadau'n codi lle nad oes gan wasanaeth unigolyn cyfrifol naill ai am nad yw'r person a benodwyd yn unigolyn cyfrifol mewn man yn gallu cyflawni ei swyddogaethau mwyach ac felly ei fod wedi cael ei dynnu o'r swydd neu am fod y person wedi marw. Yn unol ag adran 41 o'r Bil mae'n drosedd os nad oes gan fan y darperir gwasanaeth ynddo unigolyn cyfrifol. Fodd bynnag, mae adrannau 9(2) a 41(2) yn cydnabod y ffaith bod angen cyfnod o ras er mwyn i wasanaeth ddynodi person newydd yn unigolyn cyfrifol ac er mwyn i'r rheoleiddiwr asesu addasrwydd y person hwnnw. Wrth bennu'r terfyn amser o dan y ddarpariaeth hon mae'n bwysig nad yw'r cyfnod a bennwyd yn rhy fyr fel y bydd yn nod amhosibl nac yn rhy hir fel na chaiff gwasanaeth ei orchwylio na'i rheoli'n ddigonol, a all wedyn effeithio ar gydymffurfiaeth reoleiddiol y gwasanaeth hwnnw.

Bydd y rheoliadau a wneir o dan y pŵer yn adran 19(4) yn cael eu defnyddio i amlinellu'r gofynion penodol ar gyfer 'addasrwydd' unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol yn fanylach. Mae rheoliadau sy'n ymwneud â sectorau penodol a wneir o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn pennu prawf addasrwydd ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol ar hyn o bryd. Mae'r prawf addasrwydd presennol yn ei gwneud yn ofynnol:

- bod gan berson uniondeb addas a chymeriad da;
- bod person yn addas yn gorfforol ac yn feddyliol i gynnal y sefydliad neu'r asiantaeth berthnasol
- bod y person wedi darparu gwybodaeth a dogfennaeth lawn a boddhaol i'r rheoleiddiwr.

Yn Lloegr, mae Rheoliad 5 o Reoliadau Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Rheoleiddiedig) 2014 yn nodi prawf addasrwydd cyfarwyddwyr at ddibenion rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol oedolion. Yn fwy diweddar, o ganlyniad i Adroddiad Francis, diwygiodd Llywodraeth y DU y rheoliadau hyn er mwyn pennu prawf addasrwydd newydd i gyfarwyddwyr gwasanaethau iechyd.

Rhagwelir y caiff prawf tebyg i'r rhai uchod ei bennu o dan y pŵer hwn.

Diben y pŵer yn adran 19(6) yw gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau y caiff gwasanaeth sy'n cael ei redeg yn gymwys fel arall, neu fan y darperir gwasanaeth ynddo barhau heb fod ei gofrestriad yn cael ei ganslo'n llwyr lle nad oes neb y gellir ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol. Cydnabyddir y bydd amgylchiadau'n codi lle mae dynodiad unigolyn cyfrifol yn cael ei ganslo, efallai o dan amgylchiadau brys megis y rhai yn adran 20(5) ond nid oes neb o fewn sefydliad y darparwr gwasanaeth sy'n gallu bodloni'r gofynion ynglŷn ag addasrwydd, er enghraifft, yn achos unig ddarparwr sydd hefyd yn unigolyn cyfrifol. Caiff y pŵer yn adran 19(6) ei ddefnyddio i nodi'r amgylchiadau lle y caiff person nad yw'n bodloni'r gofynion yn llwyr ei ddynodi

serch hynny gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r darparwr yn dynodi unigolyn o'r fath.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw berson sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru wrth wneud y rheoliadau hyn. Y bwriad yw gweithio'n agos gyda'r sector wrth ddatblygu'r rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod y gofynion yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur. Mae'r rhain yn ofynion newydd ac efallai y bydd angen eu mireinio a'u diwygio ymhellach wrth i'r system reoleiddio newydd ymsefydlu ac aeddfedu.

Bydd y rheoliadau a wneir o dan y pŵer yn adran 27 yn rhagnodi'r gofynion manwl i'w gosod ar unigolyn cyfrifol. Y dyletswyddau y bwriedir eu hymgorffori mewn rheoliadau a wneir o dan y pŵer yn adran 27 yw:

- Penodi rheolwr priodol ac addas;
- Hysbysu bwrdd y cyfarwyddwyr (yn achos cwmni) y partneriaid (yn achos partneriaeth) a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (yn achos awdurdod lleol) am benodiad y rheolwr;
- Hysbysu'r gweithlu a rheoleiddwyr gwasanaethau am newidiadau o ran rheolwyr;
- Goruchwylio'r broses o reoli pob man y mae person yn unigolyn cyfrifol;
- Cadarnhau cywirdeb y broses o gadw cofnodion yn y mannau lle mae person yn unigolyn cyfrifol;
- Cynnal arolygiadau rheolaidd yn y mannau lle mae person yn unigolyn cyfrifol
- Cwblhau'r adran honno o'r adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â'r man(nau) lle mae person yn unigolyn cyfrifol;
- Rhoi gwybod, mewn modd amserol, am unrhyw bryderon ynglŷn â man y darperir gwasanaeth ynddo y mae'n unigolyn cyfrifol ar ei gyfer i Fwrdd y Cyfarwyddwyr, y bartneriaeth neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl y digwydd.

Mae eglurder o'r pwys mwyaf o ran hyn o ystyried y dyletswyddau cyfreithiol sydd ar yr unigolyn. Unwaith eto, mae angen i Weinidogion Cymru allu ymateb i newidiadau yn y dyfodol, adolygu canfyddiadau a thystiolaeth o arfer gorau.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Rheoliadau ynglŷn â gwasanaethau rheoleiddiedig |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 2 |
| ADRAN: | 26(1) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion i'w gosod ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |

Caiff y gofynion presennol a osodir ar ddarparwyr sefydliadau ac asiantaethau eu gosod yn rhinwedd Adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae naw set o reoliadau sy'n ymwneud yn benodol â lleoliadau a 11 o setiau o Safonau Gofynnol Cenedlaethol statudol ar waith sy'n nodi'r un gofynion ond gydag addasiadau ac ychwanegiadau mewn perthynas â sefydliadau neu asiantaethau penodol.

Bwriad y polisi yw newid i fodel rheoleiddio symlach fel y bydd dwy set o reoliadau o dan y pŵer hwn a fydd yn gymwys i bob un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig a restrir yn Atodlen 1 i'r Bil. Bydd set o reoliadau ynglŷn â'r gofynion rheoleiddiol i'w gosod ar ddarparwyr gwasanaethau ym mhob gwasanaeth gofal a chymorth sy'n debyg i'r rhai a osodir ar hyn o bryd o dan adran 22. Bydd y rhain yn debygol o gwmpasu'r gofynion canlynol:

cwblhau'r ddogfennaeth safonol megis datganiad diben, canllaw i ddefnyddwyr gwasanaethau, a llawlyfr i staff;

y gofynion i gynnal a storio cofnodion;

y gofynion ynglŷn ag addasrwydd darparwr gwasanaeth

Rhagwelir y bydd gofynion gwahanol neu ychwanegol at y rheoliadau sy'n gyffredin i bob lleoliad ar gyfer lleoliadau penodol, er enghraifft efallai y bydd gwasanaeth cartref gofal a ddarperir i blant yn unig yn gosod gofynion ychwanegol megis gofyniad i roi polisïau diogelu plant ar waith neu ofynion penodol mewn perthynas â staffio.

Yna bydd set arall o reoliadau yn nodi safonau ansawdd a fydd yn cael eu cysylltu â'r datganiad am les a gyflwynir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bwriad y polisi yw y dylai'r ffordd y rheoleiddir gofal cymdeithasol adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad, i ryw raddau, o ran newid o ddull rheoleiddio drwy dicio blychau i ffocws ar y graddau y mae'r gofal a ddarperir mewn unrhyw fan penodol yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd y rheoliadau a ddatblygir o dan y Bil hwn yn sicrhau dull gweithredu

cyson ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol o ran sut y caiff ansawdd y gofal a ddarperir ei reoleiddio a'i asesu drwy gyfeirio at ganlyniadau lles defnyddwyr gwasanaethau unigol. Er enghraifft, bwriedir y bydd yn rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:

Cydweithredu â'r defnyddiwr gwasanaeth i geisio pennu a chytuno ar ganlyniadau lles sy'n bersonol i'r defnyddiwr gwasanaeth;

Nodi sut y gellir darparu gofal a chymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth drwy gyfeirio at y canlyniadau hyn.

Er mwyn cydymffurfio â'r uchod, bwriedir y byddai'r rheoliadau wedyn yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r mathau o bethau y mae'n rhaid i ddarparwr ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad megis:

- cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion defnyddiwr gwasanaeth cyn i berson gael gofal a chymorth;

- ystyried barn pobl eraill megis teulu'r defnyddiwr gwasanaeth, unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol ac unrhyw berson sydd wedi bod yn gofalu am y defnyddiwr gwasanaeth;

- paratoi cynllun ysgrifenedig sy'n gyson â'r asesiad cynhwysfawr a chanlyniadau lles y defnyddiwr gwasanaeth a pharhau i adolygu'r cynllun hwnnw;

- galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'i ofal;

- parchu preifatrwydd y defnyddiwr gwasanaeth;

- parchu ymreolaeth y defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'n bosibl y caiff y pwerau i wneud rheoliadau eu defnyddio yn y dyfodol hefyd i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymateb i wasanaethau newydd yn ogystal ag ymateb i ganfyddiadau unrhyw adolygiad neu argymhellion ynglŷn ag arfer gorau.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw berson sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru wrth wneud y rheoliadau hyn. O ystyried y bydd y rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoleiddio yn y dyfodol, y bwriad yw gweithio'n agos gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r rheoliadau hyn (a chanllawiau cysylltiedig) er mwyn sicrhau bod y gofynion yn berthnasol, yn gymesur ac y gellir eu gorfodi. Mae'r rhain yn ofynion newydd ac efallai y bydd angen eu mireinio a'u diwygio ymhellach wrth i'r system reoleiddio newydd ymsefydlu ac aeddfedu.

Mae Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Rheoleiddiedig) 2014 yn nodi'r gofynion a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol rheoleiddiedig yn Lloegr, gan gynnwys addasrwydd darparwyr gwasanaethau a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Rheoliadau ynghylch darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu etc |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 2 |
| ADRAN: | 29(1) a 30(1) |

**DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD**

29 (1) Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi cael eu diddymu hysbysu Gweinidogion Cymru.
30(1) Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â darparwyr gwasanaethau sydd wedi marw.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Mae adrannau 34 a 35 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn nodi'r pwerau rheoleiddiol sy'n ymwneud â gofynion hysbysu pe bai derbynnydd neu ddiddymwr yn cael ei benodi; ac, os bydd y person cofrestredig yn marw. Mae'r rheoliadau a wneir yn unol â'r pwerau hyn yn cael eu diddymu ym mhob un o'r rheoliadau sy'n ymwneud â sector penodol y cyfeirir atynt uchod e.e. gweler rheoliadau 38 a 39 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002.

Bwriad y polisi yw atgynhyrchu'r rheoliadau presennol a wneir o dan y Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd hyn yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru ymateb yn briodol a gwneud darpariaeth neu addasiadau angenrheidiol os bydd darparwr gwasanaeth wedi ei ddiddymu neu os bydd darparwr gwasanaeth yn marw.

Mae'r rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hysbysu os bydd darparwr gwasanaeth wedi ei ddiddymu neu os bydd darparwr gwasanaeth yn marw. Pan fydd darparwr gwasanaeth wedi ei ddiddymu byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r gofynion a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r person a benodir. Pan fydd darparwr gwasanaeth wedi marw byddant hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu i berson rhagnodedig nad yw'n ddarparwr gwasanaeth weithredu yn rhinwedd y swydd honno am gyfnod rhagnodedig.

Bydd y rheoliadau yn cael eu defnyddio i nodi (i) y broses i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn a (ii) y gofynion a osodir ar y rhai sy'n gweithredu fel darparwyr gwasanaethau o dan yr amgylchiadau penodol hyn.

Bydd y rheoliadau yn cael eu defnyddio yn y modd hwn i sicrhau bod parhad gwasanaeth o dan yr amgylchiadau hyn ac eglurder o ran y gofynion a'r cyfrifoldebau a osodir ar y rhai sy'n gweithredu yn rhinwedd y swydd honno.

<table>
<tr><td>RHEOLIADAU YNGHYLCH:</td><td>Arolygiadau o Wasanaethau</td></tr>
<tr><td>RHAN O’R BIL:</td><td>Pennod 3</td></tr>
<tr><td>ADRAN:</td><td>32(3), 32(4)</td></tr>
<tr><td colspan="2">DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD</td></tr>
<tr><td colspan="2">32(3) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi’r cymwysterau a’r amodau eraill sydd i’w bodloni gan unigolyn y caniateir iddo fod yn arolygydd.<br>32(4) Mae’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ynghylch y modd y mae arolygiadau i’w cynnal (gan gynnwys amlder arolygiadau).</td></tr>
<tr><td colspan="2">BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nodir y system reoleiddio bresennol yn Neddf Safonau Gofal 2000 sy’n rhoi set eang o bwerau arolygu i Weinidogion Cymru - gan gynnwys hawliau mynediad, chwilio ac atafaelu. Nid yw’r gofynion o ran amlder arolygiadau a’r modd y mae arolygiadau i’w cynnal na’r cymwysterau ac amodau eraill sydd i’w bodloni gan arolygydd wedi’u nodi eto yn Neddf Safonau Gofal 2000 nac mewn rheoliadau.<br><br>Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan arolygwyr gymwysterau addas a phriodol a bod gan y rheoleiddiwr set glir o bwerau i arolygu gwasanaethau, a chyflwyno adroddiadau ar eu heffeithiolrwydd, sy’n gyson â’r model rheoleiddio newydd sy’n seiliedig ar wasanaethau ac sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ystyrir bod angen i’r Bil gynnwys darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cod ymarfer sy’n nodi’r modd y mae pwerau i arolygu i’w harfer.<br><br>Bydd y rheoliadau a’r cod ymarfer yn cael eu defnyddio i roi eglurder a sicrwydd cyfreithiol i’r rheoleiddiwr a’r darparwr gwasanaeth. Byddant yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gan arolygwyr gymwysterau a phrofiad priodol. Byddant yn sicrhau dull gweithredu cyson o ran cylchoedd arolygu a’r broses arolygu.<br><br>Bydd y rheoliadau a’r cod ymarfer yn cael eu defnyddio yn y modd hwn er mwyn sicrhau bod gan ddarparwyr a’r cyhoedd hyder yn y broses arolygu o hyd. Wrth ddatblygu’r rheoliadau a’r cod ymarfer bydd ymgysylltu llawn â’r rheoleiddiwr, y sector a dinasyddion.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Graddau arolygu |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 3 |
| ADRAN: | 35(1) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 35(1) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch graddau y caniateir i arolygydd eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi cael ei arolygu. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Nodir y system reoleiddio bresennol yn Neddf Safonau Gofal 2000 sy'n rhoi set eang o bwerau arolygu i Weinidogion Cymru – gan gynnwys hawliau mynediad, chwilio ac atafaelu. Mae'r Bill yn ailddatgan y pwerau hyn. Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno graddau arolygu yn newydd.<br><br>Bwriad y polisi yw rhoi'r pŵer i arolygwyr roi graddau i wasanaethau ar ôl arolygiadau. Y bwriad yw gwella ansawdd a chefnogi ac annog gwelliant. Ni fwriedir creu 'tabl cynghrair'.<br><br>Bydd graddau arolygu sydd ar gael i'r cyhoedd ac sydd wedi'u mynegi'n glir yn helpu'r rhai sydd â diddordeb yn ansawdd lleoliadau gwasanaethau unigol (defnyddwyr gwasanaethau presennol, darpar ddefnyddwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaethau) i gymharu dau neu fwy o ddarparwyr o faint a disgrifiad tebyg.<br><br>Rhagwelir y bydd y rheoleiddiwr gwasanaethau yn mynegi'r dyfarniadau hyn o ran disgwyliadau a chanlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth hwnnw a'u gofalwyr. Byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu a'u cyhoeddi.<br><br>Bu cefnogaeth i gyflwyno rhyw fath o ddyfarniad ynglŷn â dyfarniad o radd ansawdd yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen i'r fframwaith gael ei ddatblygu'n ofalus er mwyn sicrhau dyfarniad dibynadwy a chyson o'r gwasanaeth a ddarperir a'i ansawdd. Ni fwriedir cyflwyno rheoliadau yn y byrdymor, a dim ond ar ôl ymgynghori'n drwyadl â'r rheoleiddiwr a'r sector y bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn cael eu cyflwyno. Mae'n hanfodol bod unrhyw system o'r fath yn briodol i'r sector hwn. | |

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 4 |
| ADRAN: | 36(2)(g) a 36(5) |

**DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD**

36(2)(g) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gwybodaeth ychwanegol y gellir ei rhoi ar gofnod ar y gofrestr.

36(5) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gwybodaeth y gellir ei hepgor o'r gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau o dan amgylchiadau rhagnodedig neu ragnodi'r amgylchiadau lle y gall y rheoleiddiwr wrthod cydymffurfio â chais am gopi o'r gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau, neu ddarn ohoni.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Mae Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn nodi'r gofynion presennol ynghylch darparu copïau o gofrestrau o ddarparwyr gwasanaethau, neu ddarnau ohonynt ac mae rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno sy'n gymwys i Loegr yn unig yn nodi'r amgylchiadau lle nad yw'r gofynion hyn yn gymwys.

Bwriad y polisi yw darparu cymaint o wybodaeth â phosibl yn gyhoeddus a chynnal un gofrestr o ddarparwyr gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n cynnwys gwybodaeth gyson am bob darparwr. Bydd hon yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth sydd ar gael yn hawdd i unrhyw un sy'n dymuno cadarnhau statws darparwr.

Mae'r Bil yn parhau â'r dull gweithredu presennol ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r gofrestr. Mae'r Bil hefyd yn nodi'r wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys mewn cofnod ar y gofrestr:

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru, pe bai amgylchiadau yn mynnu hynny, i ychwanegu at y wybodaeth sydd i'w chynnwys ar y gofrestr. Gellid hefyd ei ddefnyddio i beidio â chynnwys gwybodaeth benodol yn y gofrestr gyhoeddedig o dan amgylchiadau penodol a chaniatáu i Weinidogion Cymru wrthod cydymffurfio â chais am gopi o'r gofrestr, neu ddarn ohoni, o dan amgylchiadau rhagnodedig.

Gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau o dan amgylchiadau penodol er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfyngu ar gyhoeddi gwybodaeth sensitif, er enghraifft, gwybodaeth feddygol am ddarparwyr neu fanylion am sefydliadau sy'n ymwneud â phlant.

Gellir hefyd ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn briodol i unrhyw newidiadau yn y sector gofal cymdeithasol, canfyddiadau adolygiadau neu argymhellion ynglŷn ag arfer gorau. Mae Dr Flynn

| | |
|---|---|
| wedi nodi bod gwersi yn dod i'r golwg o'i hadolygiad o Ymgyrch Jasmine ac mae'n dymuno cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau hyn. | |
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Hysbysu awdurdodau lleol am gamau penodol a gymerir o dan y Rhan hon |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 4 |
| ADRAN: | 37(1)(g) a 37(2) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 37(1)(g) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer pethau eraill a all ddigwydd yn rhinwedd Rhan 1, neu reoliadau oddi tani, a fydd yn ysgogi gosod gofynion ar Weinidogion Cymru i hysbysu pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr.<br>37(2) Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu mewn hysbysiadau i awdurdodau lleol o dan adran 37. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn nodi'r gofynion presennol ar Weinidogion Cymru i hysbysu awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ynghylch y camau a gymerwyd mewn perthynas â darparwr gwasanaeth.<br><br>Awdurdodau lleol yw'r comisiynwyr gofal. Mae ganddynt ddyletswyddau statudol hefyd, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i weithredu pan fo darparwyr gwasanaethau'n methu. Bwriad y polisi yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu ynghylch materion perthnasol a all effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr gwasanaethau, darparu gwasanaethau a chyflwyno gwasanaethau yn eu hardaloedd. Mae'r Bil yn parhau â'r dull gweithredu hwn a rhagnodir ar wyneb y Bil pa fath o wybodaeth a fyddai'n cael ei rhannu gan gynnwys canslo neu amrywio darparwr gwasanaeth; canslo neu amrywio ar frys; canslo dynodiad unigolyn cyfrifol; achosion sy'n cael eu dwyn yn erbyn person mewn cysylltiad â'r Rhan 1 o'r Bil; a hysbysiad cosb a roddir o dan adran 51 o'r Bil.<br><br>Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi materion a gwybodaeth arall y bydd yn ofynnol hysbysu awdurdodau lleol yn eu cylch.<br><br>Byddai'r pŵer i wneud rheoliadau yn cael ei ddefnyddio i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn briodol pe bai'n dod yn amlwg yn y dyfodol bod materion eraill y dylid eu rhannu ag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dim ond er mwyn rhagnodi digwyddiadau sy'n gyson â'r gofynion hysbysu ar wyneb y Bil a rôl yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio. Nid oes angen gwneud rheoliadau yn y maes hwn ar hyn o bryd. | |

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Codi ffioedd |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 4 |
| ADRAN: | 38(1) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffi gael ei thalu gan berson<br>(a) sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth;<br>(b) sy'n gwneud cais i amrywio cofrestriad;<br>(c) er mwyn caniatáu i berson barhau i gael ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth;<br>(d) i gael copi o adroddiad arolygu;<br>(e) i gael copi o'r gofrestr, neu ddarn ohoni. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae pwerau yn Neddf Safonau Gofal 2000 ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru godi ffioedd mewn cysylltiad â'u swyddogaethau rheoleiddio o dan y Ddeddf honno.<br><br>Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pwerau yn flaenorol i godi ffioedd o dan Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002. Diddymwyd y rheoliadau hyn yn 2006 am fod pryder mai proses fiwrocrataidd oedd y ffioedd yn y bôn, a oedd yn cylchredeg arian a oedd yn bodoli eisoes drwy'r system, yn hytrach na chreu ffrydiau refeniw newydd. Fodd bynnag, mae'r sector wedi newid yn sylweddol ers hynny, a bydd yn parhau i newid ac felly bydd angen i fuddiannau neu fel arall gyfundrefn ffioedd gael eu hadolygu'n rheolaidd.<br><br>Bwriad y polisi yw y dylai darparwyr gwasanaethau gyfrannu at gost rheoleiddio. Un ffordd o gyflawni hyn yw drwy godi ffioedd, ac felly'r bwriad yw cadw pŵer cyffredinol ac eang i Weinidogion Cymru godi ffioedd am eu gweithgarwch rheoleiddio. Cymru yw'r unig weinyddiaeth yn y DU nad yw'n codi ffi ar ddarparwyr gwasanaethau am gofrestru. Felly mae cost ariannol cofrestru darparwyr yng Nghymru wedi'i thalu'n gyfan gwbl drwy bwrs y wlad. Mae darparwyr gwasanaethau yn cael budd sylweddol o reoleiddio a bwriad y polisi yw y dylent wneud cyfraniad cymesur tuag at y gost honno. Bwriad y polisi yw sicrhau y caiff costau eu hadennill yn rhannol yn hytrach nag yn llawn – mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd arnynt i reoleiddio'r sector gofal cymdeithasol.<br><br>Câi'r pŵer i wneud rheoliadau ei ddefnyddio i bennu trefniant codi ffioedd a fyddai'n cyflawni bwriad y polisi, sef adennill costau'n rhannol.<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar unrhyw reoliadau sy'n ymwneud â ffioedd. Y bwriad yw gweithio'n agos gyda'r sector i ddatblygu'r rheoliadau hyn fel y bydd yr effaith ar y sector wedi ei deall yn llawn a bod unrhyw | |

| |
|---|
| system a sefydlir yn deg. |

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Methiant darparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau |
| RHAN O’R BIL: | Pennod 5 |
| ADRAN: | 43 |
| DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD | |
| Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 26. | |
| BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU | |

Mae adran 25 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ei bod yn drosedd methu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau y gellir cosbi person ar gollfarn ddiannod drwy ddirwy nad yw’n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

Mae adran 43 o’r Bil yn atgynhyrchu’r dull gweithredu hwn. Mae adran 50 o’r Bil yn rhagnodi’r cosbau y bydd person sy’n cael ei gollfarnu o drosedd o dan reoliadau o dan adran 43 yn agored iddynt, sef:

(a) Ar gollfarn ddiannod, dirwy, neu garchar am dymor nad yw’n hwy na 6mis, neu i’r ddau;
(b) Ar gollfarn ar dditiad, dirwy, neu garchar am dymor nad yw’n hwy na 2 flynedd, neu i’r ddau.

Bwriad y polisi yw y dylai fod mwy o atebolrwydd a’r gallu i orfodi unrhyw achosion o dorri’r system reoleiddiol mewn modd cymesur a phriodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i erlyn y darparwr gwasanaeth cofrestredig.

Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu troseddau eraill os bydd y darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â darpariaethau penodedig yn y rheoliadau a wneir o dan adran 26.

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn cael eu defnyddio i ragnodi pa achosion o dorri’r rheoliadau y gellir eu herlyn naill ai yn lle camau gorfodi sifil neu’n ychwanegol atynt.

Y dull gweithredu presennol yw bod achosion o dorri’r holl reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn droseddau a bennwyd mewn rheoliadau, er mai troseddau ditiad yn unig ydynt. Mae’r dull gweithredu hwn yn annhebygol o weithio yng nghyd-destun y ffordd y cynigir y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 26 yn cael ei ddefnyddio. Bwriedir y bydd dwy set o reoliadau yn cael eu

gwneud o dan y pŵer hwnnw. Y gyntaf fydd set o reoliadau sy'n ymdrin â'r pethau y mae'n rhaid i ddarparwyr eu gwneud neu eu rhoi ar waith. Byddai'r set honno o reoliadau yn addas ar gyfer yr un dull gweithredu fel y câi troseddau eu pennu mewn perthynas ag achos o dorri unrhyw un o'r rheoliadau hynny. Er enghraifft, methiant gan y darparwr i gwblhau datganiad diben neu fethiant i sicrhau bod cofnodion defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynnal. Bydd y set arall o reoliadau yn pennu safonau ansawdd gofal y gellir asesu'r darparwr yn eu herbyn mewn perthynas â'r graddau y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n gyson â chanlyniadau lles pob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'n debygol y bydd y rheoliadau hynny yn rhai eithaf lefel uchel ac y gallent gynnwys rhestr ddangosol, ond nad yw'n hollgynhwysol, o bethau y gallai darparwr eu gwneud er mwyn bodloni'r gofyniad. Bwriedir wedyn y bydd canllawiau a gyhoeddir o dan adran 28 yn rhoi mwy o'r manylion ynglŷn â'r ffordd y caiff y safon reoleiddio ei chyflawni mewn perthynas â phob gwasanaeth. Bydd angen i'r broses o bennu troseddau mewn perthynas â rheoliadau ar lefel mor uchel gael ei hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau digon o sicrwydd cyfreithiol i ddarparwyr o ran gwybod pan fo trosedd wedi'i chyflawni. Efallai y bydd rhai elfennau safon y gellir eu pennu'n drosedd ac eraill na ellir eu pennu'n drosedd.

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Methiant gan unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 5 |
| ADRAN: | 44 |

**DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD**

Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ei bod yn drosedd i unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Mae adran 25 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ei bod yn drosedd methu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau y gellir cosbi person ar gollfarn ddiannod drwy ddirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

Mae adran 44 o'r Bil yn atgynhyrchu'r dull gweithredu hwn ond mae'n benodol gymwys i unigolion cyfrifol ac yn ymwneud â darparu rheoliadau a wneir o dan adran 27. Mae adran 50 o'r Bil yn rhagnodi'r cosbau y bydd person sy'n cael ei gollfarnu o drosedd o dan reoliadau o dan adran 44 yn agored iddynt, sef:

(c) Ar gollfarn ddiannod, dirwy, neu garchar am dymor nad yw'n hwy na 6mis, neu i'r ddau;
(d) Ar gollfarn ar dditiad, dirwy, neu garchar am dymor nad yw'n hwy na 2 flynedd, neu i'r ddau.

Bwriad y polisi yw y dylai fod mwy o atebolrwydd a'r gallu i orfodi unrhyw achosion o dorri'r system reoleiddiol mewn modd cymesur a phriodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i erlyn yr unigolyn cyfrifol dynodedig.
Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu troseddau eraill os bydd yr unigolyn cyfrifol yn methu â chydymffurfio â darpariaethau penodedig yn y rheoliadau a wneir o dan adran 27.

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn cael eu defnyddio i ragnodi pa achosion o dorri'r rheoliadau a fydd yn cael eu trin yn drosedd. Rhestrir uchod y dyletswyddau y bwriedir eu gosod ar unigolion cyfrifol mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 o dan y datganiad o fwriad mewn perthynas ag adran 27. Mae'n debygol y bydd y pŵer yn adran 44 yn cael ei ddefnyddio i ragnodi y bydd achos o dorri pob un o'r dyletswyddau hynny gan unigolyn cyfrifol yn drosedd.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Hysbysiadau cosb |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 5 |
| ADRAN: | 51(6) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn perthynas â hysbysiadau cosb. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Adran 30ZA ac adran 30ZB o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yw'r pwerau cyfredol i sefydlu cynllun hysbysiadau cosb sefydlog mewn rheoliadau. Dim ond i Gymru mae'r pŵer hwn yn gymwys ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio. Mewnosodwyd y pŵer yn Neddf Safonau Gofal 2000 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, a sefydlodd gyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 yn cynnwys pŵer tebyg. Mae'r pŵer wedi cael ei ddefnyddio yn Lloegr (gweler Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgarwch Rheoleiddiedig) 2014).<br><br>Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi hysbysiad cosb, ac mae ymhlyg y gall hysbysiad o'r fath fod yn un sefydlog neu amrywiadwy.<br><br>Bwriad y polisi yw sefydlu system reoleiddio hyblyg fel y bydd gan y rheoleiddiwr ystod lawn o bwerau er mwyn iddo ymdrin ag achosion o dorri'r rheoliadau. Weithiau bydd angen erlyn achos yn lle cymryd camau gorfodi sifil. Ar adegau eraill efallai na fydd dymuniad mawr i erlyn achos, sy'n ddrud ac yn mynd ag amser ac adnoddau gwerthfawr o ran paratoi ar gyfer erlyn achos. Mesur amgen neu ychwanegol sy'n agored i'r rheoleiddiwr o dan y Bil yw rhoi hysbysiadau cosb. Mae'r pŵer yn un eang, er mwyn caniatáu hysbysiadau sefydlog ac amrywiadwy ond mewn perthynas â'r troseddau hynny a restrir yn adran 51(6) yn unig.<br><br>Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu system hysbysiadau cosb.<br><br>Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn cael ei ddefnyddio i nodi'r trefniadau manwl ar gyfer y system hysbysiadau cosb yng nghyd-destun y model rheoleiddio newydd sy'n seiliedig ar wasanaethau. Bydd y rheoliadau yn cynnig eglurder drwy ymdrin â materion ymarferol gweinyddu'r system hysbysiadau cosb gan gynnwys ffurf a chynnwys yr hysbysiad cosb; symiau sy'n daladwy; dull talu; cadw cofnodion ac ati. Wrth ddatblygu'r rheoliadau bydd ymgysylltu llawn â'r rheoleiddiwr, y sector a dinasyddion. | |

<table>
<tr><td>RHEOLIADAU YNGHYLCH:</td><td>Adroddiadau gan awdurdodau lleol a dyletswydd gyffredinol Gweinidogion Cymru</td></tr>
<tr><td>RHAN O’R BIL:</td><td>Pennod 6</td></tr>
<tr><td>ADRAN:</td><td>55 - mae’n mewnosod 144A(2)(b) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - adroddiad blynyddol gan awdurdodau lleol.<br>55 - mae’n mewnosod 144A(4) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – ffurf yr adroddiad blynyddol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:<br>gwneud darpariaeth mewn perthynas â’r cyfryw wybodaeth arall sydd i’w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol a baratoir gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol;<br>rhagnodi ffurf yr adroddiad blynyddol a baratoir gan awdurdodau lleol o dan adran 144A</td></tr>
<tr><td colspan="2">BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ar hyn o bryd, mae canllawiau a gyhoeddir o dan Ddeddf Awdurdod Lleol a Gwasanaethau Cymdeithasol 1970 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar y ffordd y maent yn darparu gofal a chymorth. Fe’i gelwir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel arfer. Mae fformat a hyd yr adroddiadau yn amrywio’n eang rhwng awdurdodau lleol.<br><br>Bwriad y polisi yw sicrhau bod Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei roi ar sail statudol a’i safoni ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd yn sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion gymharu ansawdd gwasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru â’i gilydd.<br><br>Nodir y prif eitemau sydd i’w cynnwys yn yr adroddiad yn is-adran 2(a). Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn nodi ffurf yr adroddiad ac yn rhagnodi unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn yr adroddiad. Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod adroddiadau yn glir ac yn hygyrch ac y cânt eu paratoi mewn ffordd sy’n cynnig modd i gymharu perfformiad awdurdodau lleol yn hawdd. Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i’w gwneud yn ofynnol i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr adroddiad ac felly’n caniatáu iddynt ymateb yn briodol i fodelau gwasanaeth newydd ac argymhellion ynglŷn ag arfer gorau.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Adolygiadau, ymchwiliadau ac arolygiadau |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 6 |
| ADRAN: | 56(1) - Mae'n mewnosod 149B yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – meini prawf ar gyfer graddau. |

DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD

Bydd y pŵer hwn yn is-adran 4 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r meini prawf ar gyfer graddau y caniateir iddynt gael eu rhoi mewn perthynas â'r arferiad o swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol benodedig.

BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Mae'r pŵer cyfredol yn adran 94(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Mae'r Bil yn atgynhyrchu i awdurdodau lleol y ddarpariaeth a wneir yn adran 35 o'r Bil mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau yn y sector preifat.

Bwriad y polisi yw cynnig system gydradd â'r system raddio a fydd yn cael ei mabwysiadu o dan adran 35 i ddarparwyr gwasanaethau yn y sector preifat. Bydd yn rhoi amcan o berfformiad awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion. Y bwriad yw annog gwelliant gan awdurdodau lleol yng Nghymru wrth iddynt gyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol. Ni fwriedir creu 'tabl cynghrair'.

Rhagwelir y bydd y rheoleiddiwr gwasanaethau, yn gyson â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn mynegi'r graddau hyn yn nhermau disgwyliadau a chanlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth hwnnw a'u gofalwyr; a'r ffordd y mae pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o gyflawni'r swyddogaethau hynny. Byddant yn cael eu cynnwys yn adroddiad yr adolygiad ac yn cael eu cyhoeddi.

Bydd graddau adolygu sydd ar gael yn gyhoeddus ac sydd wedi'u mynegi'n glir yn helpu'r rhai sydd â diddordeb yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol a byddant yn ei gwneud yn bosibl i bobl gymharu rhwng dau awdurdod lleol neu fwy.

Fel yn achos y graddau arfaethedig i ddarparwyr gwasanaethau, bydd angen i fframwaith o'r fath gael ei ddatblygu'n ofalus er mwyn sicrhau dyfarniad dibynadwy a chyson o'r ffordd y darperir gwasanaethau a'u hansawdd. Dim ond ar ôl ymgynghori'n drwyadl â'r rheoleiddiwr a'r awdurdodau lleol y byddai rheoliadau o'r

fath yn cael eu cyflwyno.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Adolygiadau, ymchwiliadau ac arolygiadau |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 6 |
| ADRAN: | 56(1) - Mae'n mewnosod ymhellach 149C yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – ffi mewn cysylltiad ag adolygiad. |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol dalu ffi mewn perthynas ag adolygiad a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 149B(1). | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae adran 94(6) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru dalu ffi mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau adolygu.<br><br>Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 i'w diddymu ac maent wedi cael eu hailddatgan yn y Bil ac felly mae'r Bil yn parhau â'r un dull gweithredu drwy ddarparu ar gyfer codi ffioedd.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bwriedir i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae adran 56 yn mewnosod darpariaeth yn y Ddeddf honno.<br><br>Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ffi gael ei thalu; pennu lefel y ffioedd sy'n daladwy; a'r terfyn amser ar gyfer talu. Ni fwriedir codi ffioedd ar awdurdodau lleol am arolygiadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru ac felly ni ragwelir y bydd unrhyw reoliadau yn cael eu gwneud yn y maes hwn. | |

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Adolygiadau, ymchwiliadau ac arolygiadau |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 6 |
| ADRAN: | 56(2) – Mae'n disodli adran 161 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn mewnosod adran 161A. |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae is-adran (4) o adran 161 yn rhoi pŵer i ddarparu ynghylch y cymwysterau a'r amodau eraill sydd i'w bodloni gan unigolyn y caniateir iddo fod yn arolygydd.<br>Mae adran 161A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ynghylch y modd y cynhelir arolygiadau o fangreoedd o dan adran 161 (gan gynnwys amlder arolygiadau o'r fath). | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Nodir y system reoleiddio bresennol yn Neddf Safonau Gofal 2000 sy'n rhoi set eang o bwerau arolygu i Weinidogion Cymru - gan gynnwys hawliau mynediad, chwilio ac atafaelu. Nid yw'r gofynion o ran amlder arolygiadau a'r modd y mae arolygiadau i'w cynnal na'r cymwysterau ac amodau eraill sydd i'w bodloni gan arolygydd wedi'u nodi eto yn Neddf Safonau Gofal 2000 nac mewn rheoliadau.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bwriedir i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae adran 56 yn mewnosod darpariaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas ag arolygu mangreoedd y mae awdurdod lleol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, neu sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth awdurdod lleol.<br><br>Mae'r Bil yn atgynhyrchu i awdurdodau lleol y ddarpariaeth a wneir yn adran 32 o'r Bil mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau yn y sector preifat.<br><br>Bwriad y polisi yw sicrhau bod gan arolygwyr gymwysterau addas a phriodol a bod gan y rheoleiddiwr set glir o bwerau i arolygu gwasanaethau, a chyflwyno adroddiadau ar eu heffeithiolrwydd, a bod y pwerau hynny yn gyson â'r model rheoleiddio newydd sy'n seiliedig ar wasanaethau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru awdurdodi unigolion (arolygwyr) gynnal arolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig ar eu rhan. Mae'r pŵer i wneud | |

rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r cymwysterau a'r amodau eraill sydd i'w bodloni gan unigolyn sy'n arolygydd. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ynghylch y modd y mae arolygiadau i'w cynnal (gan gynnwys amlder arolygiadau o'r fath).

Bydd y rheoliadau a'r cod ymarfer yn cael eu defnyddio i roi eglurder a sicrwydd cyfreithiol i'r rheoleiddiwr a'r darparwr gwasanaeth. Byddant yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gan arolygwyr gymwysterau a phrofiad priodol. Byddant yn sicrhau dull gweithredu cyson o ran cylchoedd arolygu a'r broses arolygu. .

Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio yn y modd hwn er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau lleol a'r cyhoedd hyder yn y broses arolygu o hyd.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol sy’n ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya |
| RHAN O’R BIL: | Pennod 6 |
| ADRAN: | 57 - Mae’n mewnosod 94A a 94B yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |

DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD

Mae adran 94A(1) yn bŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ynghylch yr arferiad gan awdurdodau lleol o swyddogaethau a roddir iddynt gan adran 81 (y ffyrdd y mae plant sy’n derbyn gofal i’w lletya a’u cynnal), neu reoliadau a wneir o dan adran 87 sy’n gwneud darpariaeth megis yr hyn a grybwyllir yn adran 92(1), 93 neu 94 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU

Mae’r pŵer presennol wedi’i gynnwys yn adran 48 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae Rhan III o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi’r swyddogaeth o reoleiddio ‘swyddogaethau maethu perthnasol’ i Weinidogion Cymru.

Mae’r Bil yn atgynhyrchu’r dull gweithredu hwn drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio’r swyddogaethau maethu cymaradwy o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â’u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bwriedir i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya. Mae adran 57 o’r Bil yn mewnosod darpariaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol ynghylch plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya.

Bwriad y polisi yw cynnwys arferiad y swyddogaethau hynny o dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y gyfundrefn reoleiddiol a sefydlir gan y Bil.

Bydd y rheoliadau yn cael eu defnyddio i ragnodi’r gofynion a fydd yn cael eu gosod ar awdurdodau lleol. Mae’r meysydd y gellir eu cwmpasu yn cynnwys addasrwydd pobl a gyflogir mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau hynny (gan gynnwys eu rheoli a’u hyfforddi) ac addasrwydd mangreodd a ddefnyddir yn hyn o beth.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Y drosedd o dorri rheoliadau o dan adran 94A |
| RHAN O’R BIL: | Pennod 6 |
| ADRAN: | 57 - Mae’n mewnosod 94B(1) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae Adran 94B(1) yn bŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ei bod yn drosedd i berson darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 94Aneu fethu â chydymffurfio â darpariaeth o’r fath. | |
| BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU | |
| Mae adran 25 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ei bod yn drosedd methu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau y gellir cosbi person ar gollfarn ddiannod drwy ddirwy nad yw’n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol. Mae Rhan III o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi’r swyddogaeth o reoleiddio ‘swyddogaethau maethu perthnasol’ i Weinidogion Cymru.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â’u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bwriedir i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya. Mae adran 57 o’r Bil yn mewnosod darpariaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol ynghylch plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya.<br><br>Mae adran 57 o’r Bil yn atgyfnerthu’r dull gweithredu hwn ac yn rhagnodi’r cosbau y mae person sy’n euog o drosedd o dan reoliadau a wneir o dan is-adran 94A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn agored iddynt, sef:<br><br>(a) Ar gollfarn ddiannod, dirwy, neu garchar am dymor nad yw’n hwy na 6mis, neu’r ddau;<br>(b) Ar gollfarn ar dditiad, dirwy, neu garchar am dymor nad yw’n hwy na 2 flynedd, neu’r ddau.<br><br>Bwriad y polisi yw y dylai fod mwy o atebolrwydd a’r gallu i orfodi unrhyw achosion o dorri’r system reoleiddiol mewn modd cymesur a phriodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i erlyn personau sy’n torri rheoliadau yn yr un modd ag y gellir erlyn darparwyr gwasanaethau. | |

Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu troseddau eraill os bydd person yn methu â chydymffurfio â darpariaethau penodedig yn y rheoliadau a wneir o dan adran 26.

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn cael eu defnyddio i ragnodi pa achosion o dorri’r rheoliadau y gellir eu herlyn naill ai yn lle camau gorfodi sifil neu’n ychwanegol atynt.

**Sefydlogrwydd y Farchnad**

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Trosolwg o'r Farchnad |
| RHAN O'R BIL: | Rhan 1 Pennod 6 |
| ADRAN: | Mae 55 yn mewnosod 144B(1) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol<br><br>Mae 55 yn mewnosod 144B(2)(a)(i) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol<br><br>Mae 55 yn mewnosod 144B(2)(a)(iii) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Mae 55 yn mewnosod 144B(3) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae 55 yn mewnosod 144B(1) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol: bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r cylch amser ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiad gan awdurdodau lleol ar sefydlogrwydd y farchnad leol.<br><br>Mae 55 yn mewnosod 144B(2)(a)(i) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithaol a Llesiant (Cymru) 2014 – adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol: bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r cyfnod y mae'n rhaid i asesiad o sefydlogrwydd y farchnad leol fynd i'r afael â digonolrwydd y gofal a'r cymorth a roddir oddi fewn iddo.<br><br>Mae 55 yn mewnosod 144B(2)(a)(iii) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol: bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i gynnwys materion sy'n ychwanegol at y rhai a restrir yn is-adran (2) (a)(i) a (ii) yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad leol.<br><br>Mae 55 yn mewnosod 144B(3) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol: bydd y pŵer hwn yn | |

galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ffurf yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol ynglŷn â'r farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwnnw wedi'i sefydlu yn adran 55 o'r Bil a fydd yn mewnosod adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bwriedir i'r adroddiad roi cipolwg o'r sector i awdurdodau lleol. Bydd yn eu helpu i gynllunio a llunio gwasanaethau, gan gynnwys gofal yn y dyfodol.

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 144B(1) yn cael ei ddefnyddio i nodi pryd a pha mor aml y bydd yr adroddiadau yn cael eu cyhoeddi. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru gysoni'r gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad hwn ynghyd â'r asesiad o anghenion lleol sy'n ofynnol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef unwaith bob cylch etholiadol. Fodd bynnag, disgwylir hefyd y bydd awdurdodau lleol yn diweddaru'r adroddiadau hyn neu'n paratoi atodiadau iddynt yn flynyddol.

Mae'r pŵer yn adran 144B(2)(a)(i) yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r cyfnod y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd darpariaeth ynddo. Felly, er enghraifft, gallai fod gofyniad i asesu digonolrwydd y farchnad dros y 5, 10 neu 20 mlynedd nesaf.

Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i faterion ychwanegol ond cysylltiedig fod yn rhan o'r adroddiad.

Bydd y gofynion eraill a allai gael eu rhagnodi o dan y pŵer yn adran 144B(2)(a)(iii) yn fwy hysbys pan fydd gwaith wedi cael ei wneud gyda'r sector.

Bydd ymgysylltu ag awdurdodau lleol hefyd er mwyn trafod fformat yr adroddiad ynghyd â'r cylchoedd adrodd a'r terfynau amser ar gyfer gweithredu.

Bwriad y polisi yw peidio â gosod gofynion adrodd rhy feichus ar awdurdodau lleol. Er enghraifft, fel rhan o'r ystyriaethau, mae'n bosibl y gall y wybodaeth angenrheidiol gael ei chyhoeddi drwy gyhoeddiadau sy'n bodoli eisoes. Bwriedir hefyd y bydd awdurdodau lleol yn gallu bodloni'r gofynion hyn drwy adroddiadau ar y cyd ar lefel ranbarthol lle tybir bod hyn yn briodol, gan gynnwys a chynrychiolwyr sectorau eraill megis byrddau iechyd lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod cynnwys yr adroddiadau hyn â'r sector cyn

| |
|---|
| drafftio unrhyw reoliadau.<br><br>Mae'r pŵer o dan 144B(2)(a)(iii) yn debygol o gael ei ddefnyddio pan fydd y darpariaethau ynghylch y trosolwg o'r farchnad a'r gofynion adrodd newydd wedi'u sefydlu er mwyn canolbwyntio ar faterion penodol nad yw'r adroddiad yn ymdrin â hwy ond y dylai ymdrin â hwy.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu asesiad enghreifftiol o'r farchnad drwy'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, gan weithio gydag awdurdodau lleol. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r broses fanwl o ddatblygu polisi yn y maes hwn (http://www.ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=7899) |

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Trosolwg o'r Farchnad |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | Pennod 7 |
| ADRAN: | 58(1) - meini prawf ar gyfer penderfynu a yw adran 60 yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth<br><br>58(4) – i ba raddau y mae adran 60 yn gymwys<br><br>60(6) – gwybodaeth i asesu cynaliadwyedd ariannol<br><br>60(7) – asesiadau |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| *58(1) - meini prawf ar gyfer penderfynu a yw adran 60 yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth:* bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r meini prawf ar gyfer penderfynu a yw adran 60 (yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan is-adran (4)) yn cymwys i ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig.<br><br>*58(4) - i ba raddau y mae adran 60 yn gymwys*: bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu nad yw adran 60 yn gymwys, neu nad yw ond yn gymwys i'r graddau a bennir, i ddarparwr gwasanaeth penodedig neu i ddarparwr gwasanaeth o ddisgrifiad penodedig.<br><br>*60(6) – gwybodaeth i asesu cynaliadwyedd ariannol:* bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i'w galluogi i gael gwybodaeth gan bersonau o'r fath fel y gwelant yn briodol, gwybodaeth y credant a fydd yn eu cynorthwyo i asesu cynaliadwyedd ariannol darparwr gwasanaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddo | |

| |
|---|
| *60(7) – asesiadau:* bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch gwneud asesiadau. |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU |
| Ar hyn o bryd, nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau i asesu cynaliadwyedd ariannol darparwyr. Felly darperir gwybodaeth ar sail wirfoddol. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw feini prawf presennol ar gyfer penderfynu pa ddarparwyr a allai gael eu hasesu, sut beth fyddai unrhyw asesiad na sut y câi ei gynnal.<br><br>Mae'r rhain yn rheoliadau pwysig y bwriedir iddynt ei gwneud yn llai tebygol na châi methiant y farchnad ei weld. Bwriad cyffredinol y rheoliadau hyn yw cyflwyno dull systematig o benderfynu'n deg pa ddarparwyr fydd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau ynghylch cynaliadwyedd ariannol a datblygu meini prawf sy'n gymesur, yn effeithiol ac sy'n gochel rhag rhoi gormod o faich ar ddarparwyr. Bydd y wybodaeth a geir yn rhoi rhybudd cynnar o fethiant y farchnad i Weinidogion Cymru ac wrth wneud hynny roi lefel o sicrwydd i Weinidogion Cymru ynglŷn â chyflwr y farchnad. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn nodi'r mathau o wybodaeth sydd eu hangen a chan bwy, ynghyd â phenderfynu sut y bydd yr asesiad gwirioneddol yn gweithio.<br><br>Mae manylion y meini prawf a'r ffordd y cânt eu cymhwyso'n ymarferol, y math o wybodaeth a geisir a'r broses o wneud asesiad eto i'w llunio. Fodd bynnag, o ystyried mai prif fwriad y rheoliadau hyn yw nodi rhybuddion cynnar o wendid ariannol yn y meysydd hynny lle y byddai methiant darparwr yn debygol o gael effaith sylweddol ac andwyol ar y sector, mae'r darpariaethau yn debygol o effeithio ar ddarparwyr mwy o faint a/neu ddarparwyr sydd â phresenoldeb sylweddol yn y farchnad neu sy'n gweithredu yn y meysydd cymorth mwy arbenigol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi, mewn rheoliadau, y meini prawf ar gyfer dewis y darparwyr hynny a ddylai ddod o dan y gyfundrefn reoleiddiol hon. Bwriedir i'r meini prawf hyn fod yn benodol i bob gwasanaeth rheoleiddiedig ac mae'n debygol o fod fel a ganlyn:<br><br>O ran gofal preswyl nyrsio a gofal preswyl – nifer y gwelyau a ddarperir<br>Ar gyfer gofal yn y cartref – nifer yr oriau o ofal a ddarperir neu nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal mewn wythnos.<br>Gwasanaethau eraill – nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal neu gymorth o fewn cyfnod penodedig<br><br>Bydd ymgynghori a thrafod ynghylch yr union nifer yn erbyn pob un o'r meini prawf hyn.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r darparwyr hynny na fyddant yn dod o dan y |

darpariaethau hyn. Fel arfer, y darparwyr hyn fydd y rhai sydd eisoes yn dod o dan gyfundrefn trosolwg debyg. Ni fydd awdurdodau lleol yn dod o dan y darpariaethau hyn. O ystyried bod y darpariaethau hyn yn adlewyrchu deddfwriaeth yn Lloegr o dan Ddeddf Gofal 2014 yn agos disgwylir hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cydweithredu â'r Comisiwn Ansawdd Gofal er mwyn osgoi dyblygu ymdrech a rheoleiddio.

Y bwriad yw y bydd y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cael mynediad at gyfrifon darparwr ac unrhyw adroddiadau ariannol a baratoir. Yna byddai'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cynnal ymarfer "diwydrwydd dyladwy". Y bwriad yw y bydd hwn yn debyg i'r ymarfer a gynhelir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chymdeithasau Tai drwy Ddyfarniadau ynghylch Hyfywedd Ariannol: (http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/financialviabilityjudgements/?skip=1&lang=cy).

Daw'r wybodaeth a ddadansoddir o amrywiaeth o ffynonellau ond rhagwelir y bydd yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrifon blynyddol archwiliedig, gan gynnwys y datganiad sicrwydd ynghylch rheolaethau mewnol;
- Llythyr rheoli archwilwyr allanol;
- Cyfrifon rheoli chwarterol;
- Cynlluniau busnes pum mlynedd;
- Adroddiadau archwilio mewnol;
- Papurau'r Bwrdd, os gofynnir amdanynt;
- Gwybodaeth ariannol a rheoli risg a gesglir drwy ymgysylltu rheoleiddiol.

Rhagwelir y gallai'r rheoleiddiwr gwasanaethau naill ai gyflogi staff i gynnal adolygiadau o'r fath neu fel arall gallai asesiadau o'r fath gael eu cynnal gan drydydd partïon allanol megis cwmni o gyfrifwyr. Diben yr adolygiad fyddai llunio barn broffesiynol ynghylch cyflwr y busnes. Yn hynny o beth, nid yw'n adroddiad y bwriedir iddo nodi sefyllfa hanesyddol y busnes ond yn un sy'n nodi dyfodol tebygol y busnes.

Os yw'r asesiad hwnnw ynghyd â gwybodaeth arall sydd gan y rheoleiddiwr gwasanaethau yn peri i'r rheoleiddiwr gwasanaethau lunio barn bod y busnes yn wynebu risg sylweddol o fethiant, yna bydd gan y rheoleiddiwr gwasanaethau y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r darparwr fod yn destun adolygiad busnes a/neu gyflwyno trefniadau cynllunio wrth gefn i'r rheoleiddiwr.

Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl derbyn yr adolygiad busnes hwnnw a/neu'r

cynlluniau wrth gefn, o'r farn bod y busnes yn methu neu'n debygol o fethu yna bydd dyletswydd arnynt i hysbysu awdurdodau lleol sydd â dyletswyddau cyfatebol a nodir yn adrannau 189 i 192 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithaol a Llesiant (Cymru) 2014 i reoli'r methiant hwnnw.

Bydd y maen prawf, y ffynonellau o wybodaeth a'r dull asesu yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â darparwyr a'r sector ehangach. Bydd grŵp technegol a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn cael ei sefydlu i drafod a chynghori Gweinidogion Cymru ar y broses fanwl o ddatblygu'r rheoliadau hyn. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau manwl ynglŷn â sut y bydd unrhyw wybodaeth a geir gan ddarparwyr at ddiben y rheoliadau hyn yn cael ei storio a'i defnyddio. Er enghraifft, bydd y ffordd y rhennir gwybodaeth ag awdurdodau lleol fel na fydd darparwr o dan unrhyw anfantais a/neu fel na ddatgelir gwybodaeth sensitif am y farchnad yn debygol o fod yn fater allweddol.

Y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gofal 2014 sy'n gymwys yn Lloegr ac sy'n cyfateb i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 58 (1) yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Meini Prawf Trosolwg o'r Farchnad) 2014.

Y rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Gofal 2014 sy'n gymwys yn Lloegr ac sy'n cyfateb i'r rheoliadau a wneir o dan 60(6) o'r Bil yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Meini Prawf Trosolwg o'r Farchnad) 2014.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Trosolwg o'r Farchnad |
| RHAN O'R BIL: | Pennod 7 |
| ADRAN: | 62(1) - adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol<br><br>62(3)(a)(i) – adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol<br><br>62(3)(a)(iii) – adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| 62(1) - adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol: bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch amseriad a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol.<br><br>*62(3)(a)(i) – adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol:* bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu bod yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir yng Nghymru yn ystod cyfnod a ragnodir.<br><br>*62(3)(a)(iii) – adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol:* bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu bod unrhyw fater sy'n gysylltiedig â darparu gofal a chymorth i'w gynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ar gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â Rhannau perthnasol o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003 a Deddf Safonau Gofal 2000 yn flynyddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i unrhyw adroddiadau wneud dadansoddiad o'r farchnad gofal a chymorth ar y pryd nac yn y dyfodol.<br><br>Mae adran 62 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol. Bwriedir i hwn fod yn adroddiad ar y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n cynnwys gwybodaeth o ba ffynhonnell bynnag a ystyrir yn berthnasol, ond gan gynnwys ystyried yr adroddiadau ar y farchnad leol a baratoir gan awdurdodau lleol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad hwnnw gynnwys gwybodaeth am y canlynol:<br><br>Digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir yng Nghymru yn ystod cyfnod a ragnodir;<br>Y graddau y darparwyd gwasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru yn ystod | |

y cyfnod rhagnodedig hwnnw gan ddarparwyr gwasanaethau y mae asesiadau o gynaliadwyedd ariannol o dan ddarpariaethau'r Bil ynghylch y trosolwg o'r farchnad yn gymwys iddynt;

Unrhyw gamau a gymerwyd o dan ddarpariaethau'r Bil ynghylch y trosolwg o'r farchnad.

Mewn perthynas â'r pŵer o dan adran 62(1) mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn y cyfnod ar ôl i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol sy'n ofynnol o dan adran 55 o'r Bil sy'n mewnosod adran 144B yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru) 2014. Fodd bynnag, disgwylir hefyd y bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu diweddaru neu y bydd atodiadau iddynt yn cael eu paratoi'n flynyddol.

Mewn perthynas â'r pŵer o dan adran 62B(3)(a)(iii) mae hwn yn bŵer sy'n debygol o gael ei ddefnyddio pan fydd y darpariaethau ynghylch y trosolwg o'r farchnad a'r gofynion adrodd newydd wedi'u sefydlu, er mwyn canolbwyntio ar faterion penodol nad yw'r adroddiad yn ymdrin â hwy ond y dylai ymdrin â hwy.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Ystyr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| RHAN O'R BIL: | 4: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| ADRAN: | 78 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer yn caniatáu i gategorïau o weithwyr gael eu hychwanegu at bersonau yn y diffiniad o weithwyr gofal cymdeithasol yn yr adran neu eu heithrio o'r diffiniad hwnnw. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |

Y ddeddfwriaeth gyffredinol gyfredol sy'n ymwneud â rheoleiddio gofal cymdeithasol yw Deddf Safonau Gofal 2000. Mae adran 55 yn nodi'r personau hynny sy'n "social care workers" at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000. Mae adran 55(2) yn rhestru'r personau hynny sydd bob amser i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i drin categorïau eraill o berson fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'r Bil hwn yn parhau â'r dull gweithredu hwn ac mae adran 78 yn nodi'r personau hynny sy'n "gweithwyr gofal cymdeithasol" at ddibenion y Bil. Mae is-adran (1) yn deillio o'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol yn adran 55 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac mae'n rhestru'r personau hynny sy'n rheoli neu sy'n darparu gofal a chymorth mew cysylltiad â gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae'r personau hynny bob amser i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Bil. Fel yn Neddf Safonau Gofal 2000 mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i drin categorïau eraill o bersonau fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Bil, ac mae is-adran (3) yn rhestru'r categorïau hynny. Bwriedir i'r personau hynny gwmpasu ehangder y personau sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ac sy'n gwneud pethau sy'n ymwneud â gofal a chymorth ac felly a allai gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

Ceir nifer o gyfeiriadau at "gweithwyr gofal cymdeithasol" yn y Bil. Ar hyn o bryd, mae cyfeiriadau at "gweithwyr gofal cymdeithasol" ond yn cyfeirio at y personau hynny a restrir yn adran 78(1). Fodd bynnag, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru drin categorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol a restrir yn is-adran (3) fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Bil.

Bwriad y polisi yw y bydd rheoliadau yn cael eu gwneud sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl bersonau hynny a restrir yn is-adran (3) o adran 78 gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion yr adrannau canlynol:

Adran 67 (Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") yn arfer ei swyddogaethau i hyrwyddo safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad ymhlith gweithwyr gofal

cymdeithasol);
Adran 68 (gofal a chymorth a ddarperir gan weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion diffinio gwasanaeth gofal a chymorth);
Adran 70 (ymgysylltu GCC â gweithwyr gofal cymdeithasol);
Adran 74 (gofyniad i GCC ymgynghori â gweithwyr gofal cymdeithasol cyn cyhoeddi rheolau, cod ac ati);
Adran 111 (mae'n rhaid i GCC baratoi codau ymarfer i weithwyr gofal cymdeithasol);
Adran 113 (cymeradwyo cyrsiau ac ati);
Adran 163 (gorchmynion sy'n gwahardd personau rhag ymarfer fel gweithiwr gofal cymdeithasol).

Bwriad y polisi yw sicrhau bod gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yn dwyn ynghyd yr holl bersonau hynny sy'n cyfrannu at ansawdd gofal a'u cwmpasu. Mae gofal cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda sectorau eraill megis iechyd ac addysg, ac mae'n bwysig, wrth i GCC geisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir, ei fod yn gallu ystyried natur amlddisgyblaethol gofal cymdeithasol modern.

Bwriad y polisi yw y bydd rheoliadau yn cael eu gwneud sy'n ei gwneud yn ofynnol i gategori culach o weithwyr gofal cymdeithasol gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion yr adrannau canlynol:

Adran 79 (gweithwyr gofal cymdeithasol y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru â GCC)
Adrannau 116, 122, 135 a 158 (Rhan 6 gweithwyr gofal cymdeithasol: addasrwydd i ymarfer)

Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â grwpiau o'r gweithlu y mae'n ofynnol i GCC eu cofrestru a'r gweithdrefnau canlyniadol sy'n gymwys. Ni fyddai'r adrannau hyn yn berthnasol i'r rhannau hynny o'r gweithlu nad ydynt wedi'u cofrestru â GCC.

Y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn darparu y bydd myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn ogystal â gweithwyr gofal cymdeithasol preswyl yn cael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion yr adrannau uchod, yn ychwanegol at y gweithwyr gofal cymdeithasol hynny a restrir yn adran 78(1),

Mae angen bod modd addasu'r categorïau o bersonau a ddiffinnir yn weithwyr gofal cymdeithasol wrth i'r sector ddatblygu a thyfu, fel y gellir ystyried a ddylai mathau presennol neu newydd o weithwyr gael eu rheoleiddio fel y'i nodir yn yr adrannau uchod. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld twf yn nifer y cynorthwywyr personol oherwydd y defnydd o daliadau uniongyrchol, yn ogystal â'r rhai sy'n eu cyflogi a'u rheoli. Dengys yr enghraifft hon fod y sector gofal cymdeithasol yn parhau i ddatblygu, a bydd angen i'n dealltwriaeth o'i weithlu

addasu’n unol â hynny dros amser. Felly efallai y bydd angen trin personau o’r fath fel gweithwyr gofal cymdeithasol yn y dyfodol at ddibenion cofrestru neu er mwyn cymeradwyo cyrsiau i bersonau o’r fath.

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol dynodedig |
|---|---|
| RHAN O'R BIL: | 4: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| ADRAN: | 79 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer yn caniatáu i'w gwneud yn ofynnol i fathau o weithwyr gofal cymdeithasol gael eu cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod yn rhaid i GCC gynnal cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol y mae'n ofynnol iddynt ar hyn o bryd gofrestru â Chyngor Gofal Cymru. Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ychwanegu categorïau eraill o weithwyr at y gofyniad hwn.<br><br>Mae adran 79 yn ailddatgan adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac yn ei gwneud yn ofynnol i GCC gynnal cofrestr o weithwyr cymdeithasol perthnasol, gweithwyr cymdeithasol sy'n ymweld o Aelod-wladwriaethau perthnasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Bwriad y polisi yw y bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn ei gwneud yn ofynnol i GCC gynnal cofrestr o reolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, myfyrwyr sy'n dilyn cwrs gradd cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru a gweithwyr gofal plant preswyl. Mae hyn yn gyson â'r gofrestr y mae Cyngor Gofal Cymru yn ei chynnal ar hyn o bryd.<br><br>Fodd bynnag, bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion, drwy reoliadau, estyn y categorïau hynny o'r gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n rhaid i GCC gynnal cofrestr ar eu cyfer. Mae hyn yn ailddatgan y sefyllfa bresennol a sefydlwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000.<br><br>Fel Deddf Safonau Gofal 2000, nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol o ddisgrifiad arall gofrestru. O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae'n ofynnol i reolwyr, myfyrwyr a gweithwyr gofal plant preswyl gofrestru yn rhinwedd gofynion a nodir mewn rheoliadau a wneir yn unol ag adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Y bwriad yw y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 26 a 27 o'r Bil yn nodi gofynion tebyg. Gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gategorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adrannau 26 neu 27 os byddant o'r farn bod angen gwneud hynny am resymau diogelu'r cyhoedd. Gallai Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol i gategorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru drwy estyn teitlau a ddiogelir i weithwyr cymdeithasol yn rhinwedd adran 110 i gategorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol. Pe bai gofynion o'r fath yn cael eu gosod ar gategorïau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol byddai angen estyn y categorïau o weithwyr | |

gofal cymdeithasol y mae’n rhaid i GCC gynnal cofrestr ar eu cyfer.

Mae’r rheoliadau hyn ynghyd â rheoliadau a wneir o dan adrannau 26, 27 a 110 yn diogelu’r ddeddfwriaeth at y dyfodol i bob diben, gan roi digon o bwerau i Weinidogion Cymru ystyried moderneiddio gwasanaethau a chategorïau newydd o weithwyr o fewn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol, ac ymateb i wasanaethau gofal cymdeithasol a modelau gofal newydd sy’n datblygu. Mae cofrestru’r gweithlu gofal cymdeithasol yn rhywbeth y bydd angen ei adolygu a’i ailystyried yn rheolaidd yng ngoleuni profiad a newidiadau yn y sector. Bydd cynnydd mathau eraill o reoleiddio, megis gorchmynion gwahardd neu reoliadau a arweinir gan gyflogwyr, yn dylanwadu ar b’un a fydd angen ystyried cofrestru categorïau eraill o’r gweithlu. Bydd y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y categorïau o weithwyr gofal cymdeithasol y mae’n ofynnol iddynt gofrestru â GCC os ystyrir bod angen gwneud hyn yn y dyfodol. Felly credir ei bod yn bwysig bod modd cadw’r gallu i estyn cofrestriad os oes angen fel un rhan o’r fframwaith rheoleiddiol ehangach.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw’n bolisi gan Lywodraeth Cymru newid y grwpiau presennol yn y gweithlu y mae’n ofynnol iddynt gofrestru ac felly bydd yn ofynnol i GCC gynnal cofrestr o’r gweithwyr gofal cymdeithasol hynny y mae’n eu cofrestru ar hyn o bryd. Mae’r dull gweithredu presennol wedi gweithio’n dda o ran atgyfnerthu atebolrwydd mewn rhannau allweddol o’r gweithlu, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau o’r gweithlu lle ceir cyfrifoldebau proffesiynol neu gorfforaethol penodol. Mae’r dull gweithredu yn debyg iawn i’r dulliau rheoleiddio a geir yng ngwledydd eraill y DU.

Bydd y dull gweithredu hwn yn rhoi amser i reoleiddiwr y gweithlu ymaddasu at ei ofynion newydd a sefydlir yn y Bil hwn, ac ymgorffori’r gofynion cymharol ddiweddar i gofrestru rheolwyr cartrefi. Mae’n fwriad gan Lywodraeth Cymru fonitro’r maes hwn yn barhaus er mwyn asesu manteision ac anfanteision estyn neu leihau’r grwpiau yn y gweithlu y mae’n ofynnol iddynt gofrestru. Bydd yr adolygiadau hyn yn gofyn am ymgysylltu ac ymgynghori â’r sector cyfan.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Cynnwys y gofrestr |
| RHAN O’R BIL: | 4: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| ADRAN: | 90 |
| DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae’r pwerau hyn yn caniatáu i gynnwys cofrestr gael ei amrywio. | |
| BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU | |

Y bwriad yw nodi pa wybodaeth y mae’n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr mewn perthynas â’r canlynol:

> cymwysterau, gwybodaeth neu brofiad y tu hwnt i’r hyn sy’n ofynnol er mwyn ymarfer ar y cychwyn yn y rôl y mae’r person wedi’i gofrestru ar ei chyfer
> addasrwydd person cofrestredig i ymarfer

Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Gofal Cymru gynnal cofrestr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac yn darparu bod dull a fformat y gofrestr i’w nodi mewn rheolau cofrestru a gynhelir gan y Cyngor Gofal ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Mae’r rheolau cyfredol yn nodi y bydd y gofrestr yn cynnwys saith maes gwybodaeth gan gynnwys er enghraifft, enw’r unigolyn cofrestredig, ei rif cofrestru ac unrhyw amodau a osodir o ganlyniad i achosion addasrwydd i ymarfer.

Mae’r Bil yn rhagnodi gofynion penodol y mae’n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr, i’w chynnal gan GCC, yn hytrach na gadael i hyn gael ei nodi mewn rheoliadau neu reolau. Mae adran 90 yn nodi’r wybodaeth y mae’n rhaid iddi ymddangos ar y gofrestr mewn perthynas â phersonau cofrestredig. Mae’n ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, fod yn rhaid i’r gofrestr gynnwys manylion cymhwyster y person cofrestredig sy’n ei alluogi i ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol. Gall Gweinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau fod yn rhaid i’r gofrestr ddangos cymwysterau ychwanegol neu brofiad a enillwyd gan y person cofrestredig. Bydd hyn yn sicrhau y gall y gofrestr gael ei haddasu at nodweddion penodol y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, a grwpiau penodol ynddo.

Bwriad y polisi yw y bydd anodi’r gofrestr i adlewyrchu lefelau gwahanol o gymwysterau yn cael ei ddefnyddio i gefnogi’r broses o roi model strwythur gyrfa ar waith i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae’r Cyngor Gofal wedi datblygu ystod gynhwysfawr o raglenni ar gyfer addysg broffesiynol barhaus a dysgu gweithwyr cymdeithasol. Mae’r rhaglenni hyn wrthi’n cael eu rhoi ar waith ac maent eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gweithlu. Mae’r Cyngor Gofal yn awyddus i sicrhau bod y datblygiad proffesiynol hwn yn cael cymaint o effaith a chydnabyddiaeth â phosibl ac mae cyfeirio ato ar y gofrestr yn ffordd rymus o wneud hynny. Felly’r bwriad yw y bydd y gofrestr yn cael ei anodi er mwyn dangos bod

gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau rhaglen addysg broffesiynol barhaus GCC. Gellid defnyddio hyn i adlewyrchu'r ffaith bod gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau rhaglen uwch weithiwr cymdeithasol, er enghraifft, er mwyn i'r gofrestr adlewyrchu'r lefel wahanol o weithiwr cymdeithasol.

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn S90(1)(d) yn nodi pa wybodaeth a fydd yn ymddangos ar y gofrestr mewn perthynas ag addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn rheolau'r Cyngor Gofal ar hyn o bryd.

Mae'n hollbwysig bod gwybodaeth eglur am addasrwydd i ymarfer ar gael ar y gofrestr er mwyn diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd, cyflogwyr ac eraill sydd â diddordeb yn y gweithlu, gadarnhau addasrwydd unigolion cofrestredig, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau a all fod yn gymwys i'w hymarfer. Bwriad y polisi yw y bydd rheoliadau a wneir o dan A90(1)(d) yn rhagnodi'r un wybodaeth ag sy'n ymddangos ar hyn o bryd yn y gofrestr mewn perthynas ag addasrwydd person cofrestredig i ymarfer. Ar hyn o bryd, mae unrhyw gerydd (a elwir yn rhybudd yn y Bil) neu orchymyn amod ymarfer a roddir gan bwyllgor wedi'u cynnwys. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gallu cynnwys unrhyw fanylion eraill y cred eu bod yn briodol yn ôl ei ddisgresiwn. Bwriad y polisi yw y dylai fod dull gweithredu cyson mewn perthynas â'r hyn y mae'n rhaid iddo ymddangos ar y gofrestr ac y dylai hyn gael ei nodi'n glir. Bwriad y polisi yw y dylai unrhyw benderfyniad i'r perwyl bod amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ac unrhyw gosb gyfredol ynghylch addasrwydd i ymarfer gael eu cofnodi yn y gofrestr. Golyga hyn bob cosb a roddir gan banel addasrwydd i ymarfer yn sgil dyfarniad i'r perwyl bod amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Mae'n hollbwysig er mwyn diogelu'r cyhoedd nad yw gwybodaeth o'r fath yn cael ei chadw'n breifat gan reoleiddwyr. Bwriad y polisi hefyd yw y bydd y gofrestr yn cynnwys manylion unrhyw amodau ar ymarfer (oni fydd yr amodau yn ymwneud ag iechyd yr unigolyn cofrestredig) yn hytrach na'r ffaith bod amodau wedi'u gosod yn unig. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw amodau a osodir yn cael eu monitro ac y cydymffurfir â hwy. Y bwriad hefyd yw sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu'r ffaith bod rhybuddion wedi cael eu rhoi i unigolion cofrestredig, y cytunwyd ar ymgymeriadau a bod gorchmynion interim wedi cael eu gosod. Gosodwyd gorchmynion o'r fath neu cytunwyd ar ymgymeriadau o'r fath am resymau diogelu'r cyhoedd ac felly mae'n briodol bod y gofrestr yn adlewyrchu'r penderfyniadau hynny.

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb os ystyrir bod angen cynnwys penderfyniadau neu wybodaeth arall ynglŷn ag addasrwydd person i ymarfer ar y gofrestr neu os teimlir bod angen cyfyngu ar y wybodaeth sy'n ymddangos ar y gofrestr yng ngoleuni profiad GCC.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr |
| RHAN O'R BIL: | 4: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| ADRAN: | 109 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru darparu ynghylch ffurf a chynnwys y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr i'w rhagnodi, cyhoeddi'r rhestr a'r amgylchiadau pan fo rhaid dileu cofnod sy'n ymwneud â pherson o'r rhestr | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Y bwriad yw nodi'r gofynion mewn perthynas â'r rhestr o bersonau sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Mae'r gofyniad ar GCC i gynnal rhestr o'r fath yn un newydd.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw rheoleiddiwr y gweithlu yn cynnal rhestr o bobl sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Os bydd aelod o'r cyhoedd neu gyflogwr yn ceisio canfod a oes rhywun wedi'i gofrestru, mae angen iddynt chwilio'r gofrestr gyntaf. Os na allant ddod o hyd i'r person yno, gallant chwilio'r rhestr o ganlyniadau penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer er mwyn gweld a yw'r person wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Ymhellach at hynny, gallant gysylltu â rheoleiddiwr y gweithlu i gadarnhau statws y person y maent yn chwilio amdano. Byddai person yn aros ar y rhestr o ganlyniadau addasrwydd i ymarfer oni fydd tystiolaeth newydd yn codi sy'n bwrw amheuaeth ar y penderfyniad gwreiddiol neu oni chaiff ei dderbyn yn ôl ar y gofrestr.<br><br>Am resymau diogelu'r cyhoedd bydd y gofrestr yn adlewyrchu'r cosbau hynny a roddir gan banel addasrwydd i ymarfer i unigolyn cofrestredig. Fodd bynnag, ni fydd y gofrestr yn adlewyrchu'r ffaith bod cofnod person wedi cael ei ddileu. Felly yn rhinwedd adran 109 bydd yn ofynnol i GCC gadw rhestr o'r personau hynny y mae eu cofnodion wedi cael eu dileu. Bydd rhestr o'r fath yn osgoi unrhyw amryfusedd ynghylch pam na ellir dod o hyd i unigolyn cofrestredig yn y gofrestr.<br><br>O ran ffurf a chynnwys y rhestr, bwriad y polisi yw y bydd y rhestr yn gyson â'r gofrestr. Felly bydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i adnabod unigolyn a oedd wedi'i gofrestru gynt megis enw'r unigolyn cofrestredig neu ei rif cofrestru. Y bwriad yw y bydd y rhestr yn nodi'r rheswm pam y cafodd y person cofrestredig ei dynnu oddi ar y gofrestr. Bydd yn ofynnol i GCC gyhoeddi penderfyniad ynghylch addasrwydd i ymarfer. Felly'r bwriad yw y bydd y rhesymau dros dynnu unigolyn oddi ar y gofrestr yn rhoi crynodeb o'r penderfyniad cyhoeddedig. Bydd rhagor o drafodaethau gyda rheoleiddiwr y gweithlu a'r sector er | |

mwyn diffinio pa wybodaeth arall, os o gwbl, sydd ei hangen.

Mewn perthynas â chyhoeddi'r rhestr, bwriad y polisi unwaith eto yw y bydd yn gyson â'r ffordd y cyhoeddir y gofrestr. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Gofal yn cyhoeddi'r gofrestr mewn fformat electronig ac felly'r bwriad yw y bydd y rhestr hefyd yn cael ei chyhoeddi yn yr un ffordd. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhestr yn ddigon hygyrch i aelodau'r cyhoedd, cyflogwyr ac eraill sydd â diddordeb yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Gall y rheoliadau ddarparu ynghylch yr amgylchiadau lle mae'n rhaid dileu cofnod o'r rhestr. Y bwriad yw mai un o'r amgylchiadau perthnasol fyddai cais llwyddiannus unigolyn i gael ei dderbyn yn ôl ar y gofrestr, neu i'w ystyried ymhellach ar ôl i gyfnod o amser fynd heibio.

Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod tryloywder ynghylch y rhai sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr, yn ogystal â'r rhai sydd ar y gofrestr er mwyn sicrhau y gall aelodau o'r cyhoedd sydd â phryderon ynglŷn â gweithiwr gofal cymdeithasol ac na allant ddod o hyd i'w enw ar y gofrestr, chwilio'r rhestr o bersonau sydd wedi cael eu tynnu oddi ar gofrestr er mwyn gweld a gawsant eu tynnu oddi ar y gofrestr am eu bod yn anaddas i ymarfer. Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod y ffordd y caiff y rhestr hon ei gweithredu ei hystyried yn ofalus gan y rheoleiddwr a'r llywodraeth, er mwyn sicrhau bod buddiannau'r cyhoedd, cyflogwyr ac unigolion cofrestredig yn cael eu cydbwyso a'u cynnal yn briodol.

Gall y ffordd y mae'r rhestr yn gweithredu newid yng ngoleuni profiad GCC o gynnal rhestr o'r fath, yn enwedig o ystyried bod hwn yn ofyniad newydd. Felly mae cael y gallu i wneud newidiadau o'r fath yn angenrheidiol.

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Defnyddio teitl “gweithiwr gofal cymdeithasol” |
|---|---|
| RHAN O’R BIL: | 4: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| ADRAN: | 110 (2) |
| DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i deitlau a ddiogelir gael eu cymhwyso at fathau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol. | |
| BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU | |

Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu bod teitl gweithwyr cymdeithasol yn cael ei ddiogelu. Mae’n ei gwneud yn drosedd i berson ddefnyddio teitl gweithiwr cymdeithasol yng Nghymru, oni bai eu bod wedi’u cofrestru â Chyngor Gofal Cymru neu reoleiddiwr cyfatebol i weithwyr cymdeithasol yn y DU. Mae’r Bil yn atgynhyrchu’r sefyllfa hon yn adran 110. Fodd bynnag, mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu disgrifiadau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol y gallai fod angen diogelu eu teitlau.

Nid oes bwriad ar hyn o bryd i ychwanegu teitlau eraill a ddiogelir y tu hwnt i deitl gweithiwr cymdeithasol.

Mae diogelu teitl yn ffordd ddefnyddiol o ddiogelu’r cyhoedd y tu hwnt i’r hyn a ddarperir gan ofyniad i gofrestru, drwy sicrhau y gall gweithwyr mewn rolau allweddol ond cyflawni’r rolau hynny os ydynt wedi’u cofrestru’n briodol. O ystyried bod cofrestriad yn dibynnu ar fodloni gofynion penodol, gall diogelu teitl sicrhau bod gweithwyr allweddol yn addas ar gyfer y rolau y maent yn eu cyflawni. Mae diogelu teitl wedi gweithio’n dda mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol ac amrywiaeth o broffesiynau eraill. Mae’r pŵer hwn yn ei gwneud yn bosibl i ymdrin â theitlau eraill yn yr un ffordd wrth i’r gweithlu gofal cymdeithasol ddatblygu.

Serch hynny, mae angen bod modd ychwanegu disgrifiadau pellach o weithwyr gofal cymdeithasol y mae angen i’w teitlau gael eu diogelu mewn ymateb i’r ffordd y mae’r sector yn datblygu. Mae’r model presennol o reolwyr cofrestredig yn dal i ddatblygu ac mae angen amser iddo ymsefydlu’n llwyr. Mae’n bosibl y bydd unigolion nad ydynt wedi’u cofrestru yn dechrau defnyddio teitlau sy’n debyg iawn i deitlau staff cofrestredig, gan arwain at amryfusedd ymhlith y cyhoedd. O dan yr amgylchiadau hyn efallai y bydd angen ystyried diogelu teitl er mwyn rhoi eglurder ac adfer hyder.

Fodd bynnag, nid yw’n amlwg ar hyn o bryd pa grwpiau y bydd angen eu diogelu. Er enghraifft, gallai rheoliadau ei gwneud yn drosedd i berson nad yw wedi’i gofrestru fel rheolwr gwasanaeth rheoleiddiedig ddefnyddio’r teitl hwnnw neu ymhonni ei fod wedi’i gofrestru gyda’r bwriad o dwyllo. O ystyried y byddai defnyddio’r pŵer hwn yn creu troseddau newydd, câi ymgynghoriad llawn ei gynnal ynghylch unrhyw fwriad

| | |
|---|---|
| i'w ddefnyddio. Byddai'r ymgynghoriad yn cynnwys rheoleiddiwr y gweithlu, y grwpiau perthnasol o weithwyr a'u cyflogwyr er mwyn sicrhau y byddai diogelu teitl ymhellach yn rhoi gwell sicrwydd a diogelwch i'r cyhoedd. | |
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Diwygio cofrestr berthnasol |
| RHAN O'R BIL: | 4: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol |
| ADRAN: | 110 (5) |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 110(4). Mae adran 110(4) yn nodi pa gofrestrau sy'n berthnasol at ddibenion diogelu teitl. Os yw gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol wedi'i gofrestru mewn cofrestr berthnasol yna gall ddefnyddio neu gymryd y teitl gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| At ddibenion adran 110, mae cofrestr yn "cofrestr berthnasol" os yw'n gofrestr a gynhelir gan GCC, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon. Felly mae gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â GCC neu reoleiddiwr gofal cymdeithasol cyfatebol yn y DU yn gallu cymryd a defnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol. Mae is-adran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyrff sy'n cynnal cofrestr. Dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. "Cofrestr berthnasol" yw cofrestr ragnodedig a gynhelir o dan un o ddarpariaethau cyfraith y DU sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn cyfateb i'r gofrestr yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru wedi rhagnodi'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban a Chyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.<br><br>Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddiwygio hyn drwy reoliadau o dan adran 110. Bwriad y polisi yw y dylai'r trefniant barhau fel na fydd unrhyw rwystrau i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru mewn rhannau eraill o'r DU rhag defnyddio eu teitlau yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai y bydd angen diwygio neu ychwanegu at y cyrff hynny yn y dyfodol, er enghraifft, os caiff teitlau a ddiogelir eu hestyn i gategorïau ychwanegol o weithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr eraill neu os oes newid yn y ffordd y caiff gweithwyr gofal cymdeithasol eu rheoleiddio mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n bosibl y daw adeg yn y dyfodol pan nad ystyrir bod cofrestriad â rheoleiddwyr cyfatebol yn y DU yn cynnig diogelwch tebyg â chofrestriad â GCC, oherwydd meini prawf cymhwyso gwahanol. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfyngu cofrestr berthnasol i gofrestr a gynhelir gan GCC yn unig. | |

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Seiliau amhariad ar addasrwydd i ymarfer |
| RHAN O'R BIL: | 6: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer |
| ADRAN: | 116 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r seiliau dros ystyried bod amhariad ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer gael eu diwygio. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Ar hyn o bryd, mae Adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn darparu bod yn rhaid i reoleiddiwr y gweithlu nodi mewn rheoliadau yr amgylchiadau lle y bydd camau ynghylch addasrwydd i ymarfer yn cael eu cymryd. Mae rheolau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor Gofal Cymru yn nodi'r meini prawf.<br><br>O ystyried pwysigrwydd y seiliau dros amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn y broses reoleiddiol, mae'r rhain wedi'u nodi bellach ar wyneb y Bil, yn hytrach nag mewn rheolau. Fodd bynnag, mae angen hefyd fod modd i'r seiliau dros yr amhariad gael eu diweddaru a'u haddasu er mwyn sicrhau bod y system o reoleiddio'n parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol. Mae'r pŵer hwn yn darparu bod modd gwneud hynny.<br><br>Mae'r pŵer yn rhoi'r gallu angenrheidiol i ddiweddaru'r nodwedd greiddiol hon o'r broses reoleiddiol er mwyn sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn addas at y diben yng nghyd-destun y profiad o gymhwyso'r seiliau a nodir yn y Bil; newidiadau ehangach i'r gweithlu gofal cymdeithasol; neu i gyfraith achos berthnasol. Er bod y seiliau a nodir yn y Bil wedi cael eu hystyried yn ofalus, gall unrhyw rai o'r ffactorau hyn beri i'r rheoleiddiwr a'r Gweinidogion lunio'r farn bod angen addasu'r seiliau yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gall y broses reoleiddiol barhau i weithredu mewn modd effeithlon ac effeithiol. Mae'r cyfleuster hwn yn bodoli yn y system bresennol lle mae'r seiliau dros amhariad wedi'u nodi mewn rheolau ac am y rhesymau uchod mae angen iddynt barhau i fod yn nodwedd o'r trefniant newydd. O ystyried yr ystyriaeth bresennol a roddir i nodi'r seiliau dros amhariad yn y Bil, ni fwriedir gwneud unrhyw reoliadau yn y byrdymor. | |

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Personau na allant ymgymryd ag ystyriaeth ragarweiniol nac ymchwiliadau |
| RHAN O'R BIL: | 6: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer |
| ADRAN: | 118, 124 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i fathau ychwanegol o bersonau gael eu heithrio rhag ymgymryd ag ystyriaeth ragarweiniol neu ymchwiliad i faterion a atgyfeirir at reoleiddiwr y gweithlu. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Mae ystyriaeth ragarweiniol yn cyfeirio at y broses o ystyried honiadau neu wybodaeth i benderfynu a ddylai achos fynd yn ei flaen i gael ei ystyried ymhellach ai peidio. Bydd rheoleiddiwr y gweithlu'n pennu'r broes o sgrinio honiadau a gwybodaeth o'r fath; a gallai'r broses hon gael ei chynnal gan aelod neu aelodau o staff rheoleiddiwr y gweithlu neu gan bersonau eraill a benodir at y diben hwnnw. Lle y bo'n briodol, bydd y broses hon yn cael ei dilyn gan ymchwiliad i'r honiadau, o dan bwyllgor ymchwilio. Ar hyn o bryd, mae adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch nodi'r trefniadau hyn mewn rheolau. Mae'r rheolau ynghylch Addasrwydd i Ymarfer yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ystyriaeth ragarweiniol ac ymchwiliad gan gynnwys pwy all ac na all fod yn rhan o'r broses.<br><br>O dan y Bil, bydd rheoleiddiwr y gweithlu yn gallu defnyddio ei staff ei hun yn y prosesau hyn neu benodi pobl at y dibenion hyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu cynnal mewn modd gwrthrychol a diduedd ac maent yn ddigon ar wahân i brosesau eraill, mae'r Bil yn nodi personau penodol sy'n cael eu heithrio rhag bod yn rhan o'r broses. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i'r Gweinidogion eithrio personau ychwanegol rhag bod yn rhan o'r prosesau hyn.<br><br>Mae angen y gallu i wneud newidiadau i'r personau na ddylent ymgymryd ag ystyriaeth ragarweiniol nac ymchwiliad gan y gall fod angen newid y personau hyn yng ngoleuni profiad rheoleiddiwr y gweithlu; neu wrth i'r system ddatblygu; neu mewn ymateb i newidiadau yn y dirwedd reoleiddiol ehangach. Er enghraifft, os bydd cyrff rheoleiddio newydd yn cael eu creu mewn man arall yn y DU, efallai y bydd angen eithrio aelodau o'r cyrff newydd rhag bod yn rhan o'r prosesau hyn. Ceir darpariaeth debyg ar hyn o bryd mewn rheolau a wnaed gan y Cyngor Gofal.<br><br>Nid oes unrhyw fwriad polisi ar hyn o bryd i wneud unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau ond mae angen y gallu hwn er mwyn ymateb i'r ffactorau uchod. Byddai unrhyw reoliadau yn cael eu gwneud ar ôl ymgynghori â'r rheoleiddiwr. | |

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Hysbysiad atgyfeirio ymlaen |
| RHAN O’R BIL: | 6: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer |
| ADRAN: | 122, 135, 149 |

| DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD |
|---|
| Mae’r pwerau hyn yn caniatáu i’r rheoleiddiwr fod o dan ddyletswydd i roi hysbysiad atgyfeirio ymlaen a datgelu ymgymeriadau i bersonau sy’n ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi’u rhestru yn y Bil. |
| BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU |
| Ar hyn o bryd, mae adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch nodi’r trefniadau hyn mewn rheolau. Mae’r rheolau ynghylch Addasrwydd i Ymarfer yn nodi’r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad a gwybodaeth ar y gwahanol gamau o’r broses addasrwydd i ymarfer.<br><br>Er mwyn diogelu’r cyhoedd yn effeithiol drwy’r broses o reoleiddio’r gweithlu, mae angen bod y broses yn dryloyw a bod y rhai sydd â diddordeb uniongyrchol yn cael eu hysbysu mewn modd effeithlon ar adegau allweddol o’r broses. Mae’r adrannau hyn bellach yn nodi ar wyneb y Bil pwy y mae’n rhaid ei hysbysu o faterion atgyfeirio ymlaen ar ôl ystyriaeth ragarweiniol ac o’r ymgymeriadau y cytunir arnynt. Mae’r Bil yn caniatáu ychwanegu at y rhestrau hyn drwy reoliadau.<br><br>Efallai y bydd angen i Weinidogion wneud newidiadau i’r rhestr o bersonau a ddylai gael hysbysiad a gwybodaeth gan y bydd angen newid y rhain o bosibl yng ngoleuni profiad rheoleiddiwr y gweithlu neu wrth i’r system ddatblygu, yn enwedig os bydd categorïau newydd o weithwyr. Y bwriad yw y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau i sicrhau bod pob math o berson sydd â diddordeb uniongyrchol yng ngwaith y person cofrestredig yn cael ei hysbysu am gamau ynghylch addasrwydd i ymarfer.<br><br>Nid oes unrhyw fwriad polisi ar hyn o bryd i wneud unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau a byddai unrhyw reoliadau yn cael eu gwneud ar ôl ymgynghori â rheoleiddiwr y gweithlu. |

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Y ddarpariaeth i gyfryngu |
| RHAN O'R BIL: | 6: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer |
| ADRAN: | 129 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i reoleiddiwr y gweithlu roi system o gyfryngu ar waith | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |

Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i wneud rheoliadau i gyflwyno cyfryngu. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i drefniadau cyfryngu gael eu rhoi ar waith maes o law os penderfynir y byddai hyn yn ychwanegiad defnyddiol at y broses reoleiddiol.

Ym marn Llywodraeth Cymru gallai cyfryngu fod yn werthfawr mewn perthynas â materion a godir lle nad oes rhagolygon realistig y byddai panel yn penderfynu bod amhariad ar addasrwydd i ymarfer, fel bod modd o hyd y tu allan i broses y panel addasrwydd i ymarfer i ddatrys anawsterau sydd wed codi rhwng person cofrestredig ac achwynydd neu ddefnyddiwr gwasanaeth. Gallai cyfryngu fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r system am y rhesymau hynny.

Mae hwn yn faes sy'n datblygu o ran rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac mae nifer o reoleiddwyr ledled y DU yn defnyddio'r dull hwn mewn sawl ffordd wahanol. Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Reoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn Lloegr yn rhoi dadansoddiad defnyddiol o ymarfer cyfredol a chanllawiau ar y ffordd y gellir ei ddefnyddio yn y dyfodol. Yn sgil ei adolygiad, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai'r Llywodraeth gael pwerau i wneud rheoliadau i gyflwyno cyfryngu a darparwyd ar gyfer hyn yn ei Fil drafft. Gallai cyfryngu ddod yn adnodd defnyddiol i'r rheoleiddiwr ac felly mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen i'r gallu i gyflwyno'r pŵer hwn fod ar gael iddynt. Fodd bynnag, byddai'n hanfodol pe bai gallu o'r fath ar gael ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Yn benodol, byddai'n bwysig parhau â'r broses bresennol lle mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr ddechrau'r broses addasrwydd i ymarfer os bydd yn cael gwybodaeth a allai fod yn gyfystyr â chwyn. Ni fyddai proses gyfryngu yn disodli hyn ac ni fyddai'n tanseilio sicrwydd y cyhoedd a roddir gan y broses addasrwydd i ymarfer. Felly byddai rheoliadau o'r fath yn nodi'r amgylchiadau penodol lle y gellid cyfryngu a'r amgylchiadau lle na ddylid cyfryngu. Byddai'r amgylchiadau lle y gellid cyfryngu yn cynnwys achosion lle bu anhawster cyfathrebu, camddealltwriaeth neu broblem gyda chydberthynas rhwng person cofrestredig a'r sawl y mae'n gweithio gyda hwy. Efallai na fyddai mater o'r fath yn gyfystyr ag amhariad ar addasrwydd i ymarfer ond gallai proses ddatrys fod o fudd i'r rhai dan sylw.

Byddai'r rheoliadau hefyd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfryngu. Byddai'r rhain yn

sicrhau nad oedd unrhyw botensial am ddryswch â’r broses addasrwydd i ymarfer. Golygai hyn, er enghraifft, y byddai gofyniad i broses gyfryngu gael ei chynnal gan sefydliad allanol i’r rheoleiddiwr neu gan bersonau a benodir at y diben penodol hwn. Byddai rheoliadau hefyd yn nodi mai dim ond yn ystod cam cynnar o’r broses ar ôl ystyriaeth ragarweiniol neu ymchwiliad y dylid ymgymryd â chyfryngu. O ystyried bod cyfryngu yn cynnig dull amgen o ymdrin â materion a atgyfeirir at y rheoleiddiwr, byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal wrth ddatblygu’r dull gweithredu a rheoliadau canlyniadol.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Gwarediadau gan baneli addasrwydd i ymarfer |
| RHAN O'R BIL: | 6: Gweithwyr Gofal Cymdeithasol: Addasrwydd i ymarfer |
| ADRAN: | 141 |

**DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD**

Mae'r pŵer hwn yn caniatáu ar gyfer ychwanegu at warediadau gan baneli addasrwydd i ymarfer a nodir yn y Bil, eu newid neu eu dileu.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

O dan y gyfundrefn bresennol, mae adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch nodi'r trefniadau hyn mewn rheolau. Mae'r rheolau ynghylch addasrwydd i ymarfer yn nodi'r gwarediadau neu'r cosbau y gellir eu cymhwyso. O ystyried pwysigrwydd hanfodol gwybod sut y gall paneli waredu'r materion yn y broses reoleiddiol, mae'r rhain wedi'u nodi ar wyneb y Bil bellach, yn hytrach nag mewn rheolau. Mae hyn yn darparu bod y broses reoleiddiol yn dryloyw. Fodd bynnag, mae angen hefyd fod modd i'r ystod o warediadau gael eu diweddaru a'u haddasu er mwyn sicrhau bod y system o reoleiddio'n parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Mae'r pŵer yn rhoi'r gallu angenrheidiol i ddiweddaru'r nodwedd greiddiol hon o'r broses reoleiddiol er mwyn sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn addas at y diben yng nghyd-destun y profiad o ddefnyddio'r gwarediadau a nodir yn y Bil gan y rheoleiddiwr gweithlu hwn neu reoleiddwyr gweithlu eraill; newidiadau ehangach i'r gweithlu gofal cymdeithasol; neu i gyfraith achos berthnasol. Er enghraifft, mae rheoleiddwyr eraill wedi bod yn ystyried ffyrdd eraill o waredu achosion gan gynnwys ad-daliadau ariannol, mynnu ymddiheuriad neu derfynu hawliau pensiwn. Er bod y gwarediadau a nodir yn y Bil wedi cael eu hystyried yn ofalus, gall unrhyw rai o'r ffactorau hyn beri i reoleiddiwr y gweithlu a'r Gweinidogion lunio'r farn bod angen addasu'r gwarediadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gall y broses reoleiddiol barhau i weithredu mewn modd effeithlon ac effeithiol. Mae'r cyfleuster hwn yn bodoli yn y system bresennol lle y nodir y seiliau dros amhariad mewn rheolau ac y gellir eu haddasu. Am y rhesymau uchod, mae angen i hyn barhau i fod yn nodwedd o'r system newydd.

O ystyried yr ystyriaeth bresennol a roddwyd i nodi'r gwarediadau yn y Bil, ni fwriedir gwneud unrhyw reoliadau yn y byrdymor.

<table>
<tr><td>RHEOLIADAU YNGHYLCH:</td><td>Gorchmynion gwahardd</td></tr>
<tr><td>RHAN O’R BIL:</td><td>7: Gorchmynion sy’n gwahardd gwaith mewn gofal cymdeithasol: personau anghofrestredig</td></tr>
<tr><td>ADRAN:</td><td>163,164,166,168,169,170,171</td></tr>
<tr><td colspan="2">DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r pwerau hŷn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynllun gwahardd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ar hyn o bryd, nid yw Cyngor Gofal Cymru yn gweithredu cynllun gwahardd nac yn gallu gwahardd gweithwyr gofal cymdeithasol anghofrestredig rhag gweithio. Byddai gorchmynion gwahardd yn ffordd newydd o reoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol nad yw’r gofrestr yn bodoli ar gyfer rhan ohono, er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn gymwys ac yn addas i roi gofal i’r cyhoedd.<br><br>Mae’r rheoliadau yn darparu ar gyfer rhoi pob agwedd ar y broses hon ar waith. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu paneli addasrwydd i ymarfer yn gwneud gorchmynion sy’n gwahardd unigolion penodol rhag ymgymryd â gweithgareddau sydd wedi’u dynodi gan y rheoliadau. Ni fyddai’r cynllun yn cyfyngu ar ddechrau ymarfer ond byddai’n caniatáu i’r rheoleiddiwr gymryd camau yn erbyn person sy’n methu â chydymffurfio â safonau ymddygiad a ragnodir.<br><br>Gellid cymhwyso gorchmynion gwahardd at rolau, gweithgareddau neu deitlau swydd penodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gweithwyr gofal yn y cartref neu weithwyr mewn cartrefi gofal i oedolion. Ni fyddai’n ofynnol i weithwyr o’r fath dalu ffioedd na chydymffurfio â gofynion ynghylch cymhwyso neu ddatblygiad proffesiynol parhaus, ond gellid ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau ymddygiad a ragnodir a allai, er enghraifft, gyfateb i’r cod ymarfer presennol i weithwyr gofal cymdeithasol. Gallai methu â chydymffurfio â safonau o’r fath neu fodloni amryw amodau eraill, megis cael eich collfarnu o drosedd, arwain at atgyfeiriad at banel addasrwydd i ymarfer, a fyddai’n ystyried y mater mewn ffordd debyg i’w hystyriaeth o faterion o dan y system rheoleiddio addasrwydd i ymarfer lawn. Byddai’r system o orchmynion gwahardd hefyd yn caniatáu ar gyfer gorchmynion interim, adolygiadau ac apeliadau mewn ffordd debyg i’r system addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, byddai canlyniad y broses yn symlach: naill ai byddai rhywun yn cael ei wahardd rhag gweithio neu byddid yn caniatáu i rywun barhau i weithio. Ni fyddai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amodau i gyfyngu ar ryddid unigolyn i ymarfer. Byddai</td></tr>
</table>

rheoliadau yn nodi fformat y rhestr o bersonau gwaharddedig a sut y câi hon ei chyhoeddi. Byddai person a barhaodd i weithio mewn rôl neu weithgarwch dynodedig ac a oedd wedi'i gynnwys yn y rhestr o bersonau gwaharddedig, wedi cyflawni trosedd a byddai'n agored i gosb ariannol. At hynny, gallai person sy'n cyflogi rhywun sy'n ymgymryd â rôl neu weithgareddau yr oedd wedi'i gynnwys yn y rhestr o bersonau gwaharddedig mewn perthynas â hwy fod yn euog o gyflawni trosedd a gallai fod yn agored i ddirwy.

Gellid defnyddio'r rheoliadau i roi sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn â rhannau o'r gweithlu nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Defnyddiwyd gorchmynion gwahardd mewn gwledydd eraill ac ystyriwyd eu defnyddio yn y DU. Gallent gynnig ffordd gymesur a chost-effeithiol o weithredu yn lle cofrestru statudol llawn a rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd na chofrestru gwirfoddol, sy'n cael ei ddileu. Dadansoddodd Comisiwn y Gyfraith y dadleuon ynglŷn â'r defnydd o gynlluniau gwahardd a daeth i'r casgliad bod y manteision yn drech na'r anfanteision ac y gellid lliniaru rhai o'r anfanteision. Er enghraifft, gellid mynd i'r afael ag unrhyw amryfusedd ymhlith y cyhoedd ynglŷn â'r berthynas rhwng cofrestru statudol llawn a chynlluniau gwahardd drwy ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus. Argymhellodd y dylai'r gallu i gyflwyno cynlluniau gwahardd fodoli drwy reoliadau.

O ystyried y byddai gorchmynion gwahardd yn elfen newydd o'r broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal a fyddai'n cynnwys pob parti sydd â diddordeb yn y gweithlu gofal cymdeithasol cyn rhoi proses o'r fath ar waith. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i wneud rheoliadau yn y maes hwn.

| | |
|---|---|
| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Personau sy'n cael eu heithrio rhag bod yn aelodau o baneli |
| RHAN O'R BIL: | 8: Gofal Cymdeithasol Cymru: dyletswydd i sefydlu paneli |
| ADRAN: | 172 |
| DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i bersonau gael eu heithrio rhag bod yn aelod o'r paneli a sefydlir yn y Bil. | |
| BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU | |
| Bydd y rheoliadau yn nodi personau, yn ychwanegol at y rhai a ragnodir yn y Bil a fydd yn cael eu heithrio rhag bod yn aelodau o baneli. Bydd y pŵer hwn hefyd yn caniatáu i'r rhestr hon gael ei haddasu yn y dyfodol.<br><br>Mae adran 172 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i GCC, drwy reolau, ddarparu bod paneli apelau cofrestru, paneli gorchmynion interim a phaneli addasrwydd i ymarfer. Mae is-adran (5) yn nodi na all aelodau nac aelodau staff GCC a rheoleiddwyr cyfatebol eraill yn y DU fod yn aelodau o'r panel, a hynny er mwyn sicrhau bod aelodau paneli yn ddiduedd ac y gallant wneud penderfyniad heb fod unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae angen hefyd sicrhau y gall paneli wneud penderfyniadau mewn modd gwrthrychol a diduedd, drwy sicrhau bod aelodau paneli wedi'u gwahanu ddigon oddi wrth rannau eraill o'r broses addasrwydd i ymarfer. Felly bwriad y polisi yw rhagnodi mewn rheoliadau bersonau ychwanegol na allant fod yn aelodau o'r amrywiol baneli. Y bwriad yw rhagnodi personau ar gyfer paneli gwahanol. Er enghraifft, ni fydd personau sydd wedi bod yn aelodau o banel gorchmynion interim yn gallu bod yn aelod o banel addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â'r un achos. Yn yr un modd, ni fydd personau a fu'n rhan o'r ystyriaeth ragarweiniol o fater neu'r ymchwiliad iddo yn gallu bod yn aelod o banel addasrwydd i ymarfer sy'n gwrando'r achos. Bydd hyn yn sicrhau bod personau cofrestredig sy'n destun achos panel yn cael proses deg lle mae pob cam yn wrthrychol a lle nad yw camau eraill o'r broses yn dylanwadu'n amhriodol arni.<br><br>Mae angen hefyd y gallu i wneud newidiadau i'r personau na ddylent fod yn aelod o banel gan y gall fod angen newid y personau hyn yng ngoleuni profiad rheoleiddiwr y gweithlu; neu wrth i'r system ddatblygu; neu mewn ymateb i newidiadau yn y dirwedd reoleiddiol ehangach. Er enghraifft, os bydd cyrff rheoleiddio newydd yn cael eu creu mewn man arall yn y DU, efallai y bydd angen eithrio aelodau o'r cyrff newydd rhag bod yn rhan o'r broses hon. Ceir darpariaeth debyg ar hyn o bryd mewn rheolau a wnaed gan y Cyngor Gofal. Bydd rheoliadau yn cael eu gwneud ar ôl ymgynghori â rheoleiddiwr y gweithlu. | |

| RHEOLIADAU YNGHYLCH: | Achosion gerbron paneli |
|---|---|
| RHAN O’R BIL: | 8: Gofal Cymdeithasol Cymru: dyletswydd i sefydlu paneli |
| ADRAN: | 173 |
| DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD | |
| Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag achosion gerbron y paneli. | |
| BWRIAD POLISI’R RHEOLIADAU | |
| Bydd rheoliadau yn nodi agweddau penodol ar y ffordd y bydd achosion paneli yn cael eu cynnal. Byddant hefyd yn caniatáu i’r rheoleiddiwr wneud rheolau ynghylch achosion paneli. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i drefniadau o’r fath gael eu haddasu yn y dyfodol.<br><br>O dan y gyfundrefn bresennol, mae adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch nodi’r trefniadau hyn mewn rheolau. Mae’r rheolau ynghylch Addasrwydd i Ymarfer yn nodi’r trefniadau ymarferol i bwyllgorau, sy’n cyfateb i baneli ar hyn o bryd.<br><br>Mae’r adran hon o’r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag achosion gerbron paneli. O ystyried rôl ganolog paneli i’r broses reoleiddiol, mae’n hollbwysig eu bod yn gweithredu mewn modd effeithlon ac effeithiol. Felly mae angen i Weinidogion gael pwerau er mwyn gallu pennu agweddau penodol ar y ffordd y bydd paneli yn gweithio a gallu addasu gweithdrefn yng ngoleuni profiad.<br><br>Bydd y rheoliadau yn nodi agweddau penodol ar y ffordd y bydd paneli yn gweithredu. Byddant hefyd yn darparu i reoleiddiwr y gweithlu wneud rheolau ynghylch agweddau penodol ar y ffordd y bydd paneli yn gweithredu.<br><br>Mae uniondeb proses y panel yn ganolog i ddibynadwyedd y broses reoleiddiol. Er mwyn sicrhau hyn, bydd angen nodi trefniadau manwl ynglŷn â’r ffordd y bydd paneli yn gweithredu. Bwriad y polisi yw y bydd materion cyffredinol sy’n gogwyddo rôl paneli, megis eu hamcanion cyffredinol neu eu prosesau rheoli achosion yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn dilyn yn fras weithdrefnau cyfredol y Cyngor Gofal a nodir mewn rheolau yn ogystal ag adlewyrchu’r egwyddorion a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei Fil drafft a baratowyd ar ôl ei adolygiad o reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Y bwriad yw y bydd materion a nodir mewn rheoliadau neu reolau o dan yr adran hon yn cynnwys: | |

Amcanion cyffredinol paneli – yr hyn y dylai pob math o banel ei gyflawni;
Proses rheoli achosion – cydgysylltu proses y panel a'i llif;
Amgylchiadau lle nad oes gwrandawiad – pan fo modd ystyried achos ar sail dogfennaeth yn unig;
Rheolau tystiolaeth – mathau derbyniol o dystiolaeth;
Yr amgylchiadau lle na chaniateir i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol yn ystod achos;
Gwysio tystion – lle mae angen sicrhau bod tystion hanfodol yn bresennol;
Mesurau arbennig i dystion – pan fo tystion yn agored i niwed neu pan fo ganddynt anghenion arbennig;
Pwy sydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad;
Amgylchiadau lle y gellir gohirio gwrandawiad neu lle y gellir gwrando achos gyda'i gilydd.